Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru

## Strategaeth



Ionawr 2016

# Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru

**Cynulleidfa** Awdurdodau lleol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig; athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; perchnogion ysgolion annibynnol; sefydliadau addysg bellach; undebau staff ysgolion; Llywodraethwyr Cymru; Gyrfa Cymru; awdurdodau addysg uwch; cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol; penaethiaid gwasanaethau plant a gweithwyr cymdeithasol. Dylai gael ei darllen hefyd gan staff yn y sefydliadau hynny sydd â chyfrifoldeb am blant sy'n derbyn gofal â'r rhai sy'n gadael gofal yn ogystal â materion sy'n ymwneud â mabwysiadu a maethu, a mudiadau trydydd sector sy'n cefnogi plant.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn disgrifio rhaglen a chwe thema allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thangyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Dylid ei darllen ar y cyd â'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â hi.

**Camau i'w cymryd** Nod y strategaeth hon a'r cynllun gweithredu yw helpu i gefnogi gweithgareddau sy'n cael effaith ar fywydau plant yn enwedig ar addysg y plant hynny sy'n derbyn gofal.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Tîm Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3344
e-bost: LACstrategy@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasgiliau

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 WG50433 ISBN 978-1-83625-553-6

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair ar y Cyd gan Weinidogion** | **2** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Trosolwg** | **6** |
| **Pennod 1: Y sefyllfa yng Nghymru** | **7** |
| **Pennod 2: Yr achos o blaid newid** | **14** |
| **Pennod 3: Beth sydd ar waith yn barod?** | **17** |
| **Pennod 4: Beth arall sydd angen i ni ei wneud?** | **23** |
| **Amcanion cenedlaethol** | **38** |

## Rhagair ar y Cyd gan Weinidogion

Mae gan bob plentyn yng Nghymru – gan gynnwys y rhai sy’n derbyn gofal – yr hawl i ddisgwyl addysg ragorol, beth bynnag yw eu hamgylchiadau. Rydym ni i gyd yn cydnabod y gall cyrhaeddiad addysgol da ddarparu llwybr i sefydlogrwydd, diogelwch a bywyd annibynnol, boddhaus yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym ni’n gwybod hefyd mai anaml iawn y mae canlyniadau plant sy’n derbyn gofal yn cymharu’n ffafriol â chanlyniadau plant eraill. Maen nhw’n llai tebygol o ennill cymwysterau addysgol da, mae ganddyn nhw fwy o anghenion iechyd a thai ac maen nhw’n fwy tebygol o ddod i gysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno cyfle i fynd i’r afael â ffyrdd y mae gwasanaethau’n cael eu darparu a gwella cyfleoedd bywyd plant yn y system ofal. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddull strategol cenedlaethol i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a fydd yn canolbwyntio ar hyrwyddo a gwella gweithio ar y cyd ar draws asiantaethau, nodi a rhannu arfer da a gwneud gwelliannau lle mae eu hangen. Bydd hefyd yn cydnabod bod mwyafrif y plant yn fwyaf tebygol o ffynnu a chyflawni canlyniadau da os ydynt yn derbyn gofal o fewn eu teuluoedd eu hunain. Bydd gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn allweddol i gefnogi plant mewn angen a'u teuluoedd, i roi pob cyfle iddynt i aros gyda'i gilydd. Gall lleoliad ysgol sefydlog ac ymrwymedig hefyd chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni'r nod hwn.

Bydd y strategaeth ar y cyd hwn yn gyrru gwelliant mewn canlyniadau addysgol, ond dim ond os bydd partneriaid allweddol yn cydweithredu’n effeithiol. Mae’n anochel y bydd ffactorau ‘bywyd’ allweddol yn effeithio ar berson ifanc mewn addysg. Rhaid sicrhau integreiddio di-dor sy’n dechrau ar lefel uchaf Llywodraeth Cymru ac sy’n cyrraedd yr ystafell ddosbarth i sicrhau bod pob plentyn sy’n derbyn gofal yn derbyn cymorth a chefnogaeth effeithiol.


Rydym ni wedi gweithio’n adeiladol gyda phob math o randdeiliaid ac maen nhw wedi ein helpu ni i nodi camau gweithredu i gefnogi ein dysgwyr yn well. Yn hollbwysig, rydym ni wedi ystyried safbwyntiau’r plant a’r rhai sy’n gofalu amdanynt er mwyn deall sut mae’r camau rydym ni’n eu cymryd yn effeithio ar eu bywydau. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb help y Rhwydwaith Maethu a Voices From Care a’r ymchwil drylwyr a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant, CASCADE – Prifysgol Caerdydd.

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno cyfres o gamau y mae angen i ni eu cymryd gyda’n gilydd i fynd i’r afael â’r materion heriol sy’n bodoli a sbarduno gwelliant cyflym mewn perfformiad addysgol. Mae cydweithio agos ar lefel Gweinidogion – ar draws swyddogaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol – yn hanfodol i sicrhau canlyniadau gwell. Mae gweinidogion a swyddogion wedi cydweithio ar y strategaeth hon, a byddwn yn sicrhau bod hynny’n parhau drwy’r trefniadau gweithredu.

Rhaid i bobl ifanc gyrraedd eu potensial llawn. Ni allwn ni dderbyn bod plant sy’n derbyn gofal yn cyflawni llai nag y byddem yn ei ddymuno a’i obeithio ar gyfer ein plant ein hunain. Byddwn ni’n sicrhau bod y cynllun gweithredu sy’n cyd-fynd â’r strategaeth hon yn cael ei fonitro’n drylwyr bob blwyddyn i sicrhau bod hyn yn digwydd.



**Huw Lewis AC**
**Gweinidog Addysg a Sgiliau**



**Mark Drakeford AC**
**Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Cyflwyniad

*Mae cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gwella'n araf ond mae gormod o amrywiad o ran cyrhaeddiad, cymorth anghyson a diffyg deilliannau penodol y gellir asesu cynnydd yn eu herbyn.*

Swyddfa Archwilio Cymru, Awst 2012

**1.** Strategaeth ar y cyd yw hon rhwng Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ei nod yw sicrhau bod pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal yn rhinwedd eu gwaith, eu cyfrifoldebau a'u bywydau yn gweithio gyda ni i godi uchelgeisiau a dyheadau addysgol plant mewn gofal. Rhaid i bob rhan o'r system weithio'n effeithiol gyda'i gilydd a chyda phlant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr er mwyn cyflawni'r dasg bwysig iawn hon.

**2.** Rhoddwyd ystyriaeth lawn i hawliau plant a phobl ifanc, yn enwedig Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), wrth ddatblygu'r strategaeth, ac ni fyddem wedi gallu cwblhau'r gwaith heb gyfraniad adeiladol yr holl randdeiliaid a gyfrannodd at ymgynghoriad 2015.

**3.** Cafodd y strategaeth ei llywio gan:

- ganlyniadau'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol
- ymchwil a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant, CASCADE – Prifysgol Caerdydd
- canlyniadau'r ymgysylltu â gofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Maethu a Voices From Care (dolenni i'r adroddiadau)

**4.** Rydym yn awyddus i ddiolch i bawb sydd wedi ymateb i'r ymarfer ymgynghori, ac i CASCADE, Voices From Care a'r Rhwydwaith Maethu am eu cymorth a'u gwaith gwerthfawr.

**5.** Yr unig ffordd y gallwn ni helpu plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i gyrraedd eu llawn botensial yw drwy i wasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill gydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau:

- bod pob plentyn yn cael cymorth a chefnogaeth i'w galluogi i gyflawni canlyniadau addysgol sydd cystal â'u cyfoedion o leiaf ac sy'n sicrhau cyfleoedd i astudio a chael swyddi yn y dyfodol
- system lle mae pob darparwr gwasanaethau yn atebol am ddarparu cymorth ac ymyriadau effeithiol
- bod trefniadau monitro cadarn i wirio cynnydd.

**6.** Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar gamau gofynnol gan bob partner allweddol i helpu plant sy'n derbyn gofal i wella eu canlyniadau addysgol ac i gynnig ystod opsiynau iddynt sy'n addas i'w huchelgeisiau, eu galluoedd a'u

hamgylchiadau. Mae'r canlyniadau addysgol hyn yn ymwneud â chyrhaeddiad academaidd a chyflawniad galwedigaethol.

**7.** Bydd yr amcanion strategol lefel uchel canlynol yn darparu fframwaith ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol ar gyfer y plant hyn i:

- godi dyheadau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a gallu'r rhai sy'n gofalu amdanynt i gefnogi eu datblygiad addysgol
- atgyfnerthu atebolrwydd cyfunol ac arweiniad effeithiol ledled Llywodraeth Cymru, consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch mewn perthynas â'u canlyniadau addysgol
- sicrhau bod addysg yn flaenoriaeth ac yn bwynt ffocws a sefydlogrwydd, yn enwedig ar adegau o newid mawr ac ansicrwydd
- sicrhau'r cymorth sydd ei angen i'w galluogi i wneud dewisiadau bywyd a gyrfa cadarnhaol a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid
- nodi data a fydd yn cynorthwyo ymarfer, llunio polisïau a monitro canlyniadau addysgol
- sicrhau bod unrhyw ymarfer rhagorol yn cael ei nodi, ei hyrwyddo a'i rannu.

**8.** Mae yna gydnabyddiaeth gynyddol nad yw anghenion plant yn y system ofal sy'n mynd ymlaen i gael eu mabwysiadu yn diflannu pan fydd gorchymyn mabwysiadu yn cael ei wneud. O ganlyniad, rydym wedi cymryd camau i gyflwyno hyblygrwydd i ymarferwyr ariannu cymorth priodol sydd o fudd i blant sydd wedi cael eu mabwysiadu neu sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, yn yr un modd ag y byddai o fudd i blant sy'n derbyn gofal.

**9.** Er bod y strategaeth hon yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion plant yn y system ofal, byddwn yn ystyried hefyd sut y gall y camau i'w datblygu ymgorffori pob plentyn â phrofiadau bywyd tebyg sy'n cyflwyno her benodol ym myd addysg. Rydym yn annog ein holl bartneriaid i fabwysiadu dull tebyg er mwyn bod o fudd i grŵp ehangach o ddysgwyr.

**10.** Dyma'n cyfle ni, gyda'n gilydd, i adeiladu ar drafodaethau'r flwyddyn diwethaf a gwneud newidiadau go iawn ym mywyd pob plentyn sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Rhaid i ni beidio â cholli'r cyfle hwn.

## Trosolwg

Mae'r strategaeth hon wedi'i threfnu'n bedair pennod:

- Mae **Pennod 1** yn disgrifio'r sefyllfa yng Nghymru o safbwynt y polisi a'r ystadegau presennol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal.
- Mae **Pennod 2** yn amlinellu'r achos o blaid newid, gan nodi perfformiad plant sy'n derbyn gofal a'r heriau a wynebant.
- Mae **Pennod 3** yn darparu trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol a'r fframwaith polisi sy'n gallu cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal a hyrwyddo eu cyrhaeddiad addysgol.
- Mae **Pennod 4** yn nodi camau gweithredu amrywiol i'w rhoi ar waith ar bob lefel er mwyn cryfhau canlyniadau addysgol.

Mae'r strategaeth yn cael ei chefnogi gan **gynllun gweithredu** cysylltiedig sy'n amlinellu'r ymrwymiadau mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud a'r camau rydym am i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol eu cymryd.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Rydym yn disgwyl i bob partner gyfrannu at y gwaith o gyflawni camau parhaus i gryfhau dulliau o gefnogi addysg y plant hyn yn unol â'r trefniadau sydd yn y strategaeth hon.

Byddwn yn cyhoeddi **diweddariad blynyddol** yn amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y **cynllun gweithredu** gan yr holl randdeiliaid allweddol ac yn nodi unrhyw ymrwymiadau newydd i helpu i gyflawni ein huchelgais cyffredin. Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol cyntaf ym mis Ionawr 2017.

## Diffinio cyrhaeddiad

Mae *gwella uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru* yn cyfeirio at gyrhaeddiad gan ddefnyddio nifer o fesurau cyffredin sy'n cael eu diffinio isod.

Mae Lefel 2 cynhwysol (L2 cyn) yn cyfeirio at ennill cymwysterau sy'n gyfwerth â phum TGAU gradd A* i C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg.

Mae Dangosydd Pynciau Craidd (CSI) yn cyfeirio at gyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn yr Iaith Gymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Mae'r lefelau disgwyliedig yn cael eu mesur yn erbyn asesiadau athrawon sy'n mesur cynnydd a chyrhaeddiad disgwyliedig ym mhob cyfnod allweddol.

Dyma'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol:

- Y Cyfnod Sylfaen – Canlyniad 5 y Cyfnod Sylfaen
- Cyfnod Allweddol 2 – Cwricwlwm Cenedlaethol Lefel 4
- Cyfnod Allweddol 3 - Cwricwlwm Cenedlaethol Lefel 5

# Pennod 1: Y sefyllfa yng Nghymru

**1.1** Mae effaith negyddol cyrhaeddiad addysgol gwael plant sy'n derbyn gofal yn gallu golygu bod y plant hyn yn methu manteisio ar gyfleoedd i symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16 a swyddi da, ac mae hyn yn aml yn wir.

**1.2** Mae'r rhan fwyaf o blant sydd wedi treulio amser yn y system ofal yn dod o deuluoedd nad ydynt yn gallu darparu lefel o ofal sy'n diwallu eu hanghenion emosiynol a llesiant. Gall plant gael eu rhoi mewn gofal mewn sawl ffordd. Y ffordd fwyaf cyffredin yw trwy orchymyn gofal o dan Ddeddf Plant 1989 (gweler Rhan 4 y Ddeddf honno). Bydd yr awdurdod lleol yn gwneud cais i'r llys am orchymyn gofal os bydd o'r farn bod plentyn mewn perygl dybryd o gael niwed, a bydd yn cyflwyno tystiolaeth i'r llys i gefnogi ei achos. Bydd y llys yn gwneud gorchymyn gofal os bydd yn cytuno â barn yr awdurdod lleol. Esgeulustod neu gamdriniaeth yw'r rheswm mwyaf cyffredin pam mae plentyn neu berson ifanc yn cael ei roi mewn gofal.

**1.3** Yr ail reswm mwyaf cyffredin yw pan fo teulu yn gofyn i awdurdod lleol ofalu am y plentyn ar ei ran, yn wirfoddol. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd pan fo gan deulu broblemau dros dro sy'n golygu na all y rhieni ofalu am eu plentyn hyd nes y bydd y problemau hynny'n cael eu goresgyn. Gall y problemau hyn gynnwys salwch tymor byr y rhieni neu broblemau yn ymwneud â chyffuriau neu alcohol. Mewn achosion o'r fath, bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'r rhieni i leddfu'r problemau hyn a dychwelyd y plentyn at y rhieni.

**1.4** Yn aml, mae bywyd plentyn sy'n derbyn gofal yn cynnwys trawma a straen yn ei fywyd cartref. Yn aml, mae newidiadau i leoliad maeth ac amser i ffwrdd o'r ysgol yn tarfu ar ei gontinwwm dysgu. Mae'n anochel bod y pethau hyn yn effeithio ar ei hunan-barch a'i hyder. Y diffyg cysondeb hwn yw'r rheswm pam y mae'n rhaid i bob rhan o'r system weithredu mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynol i sicrhau bod newidiadau sylweddol ym mywyd y plentyn yn cael eu lleihau a'u rheoli mewn ffordd ystyriol, gyda'r plentyn yn ganolog i unrhyw benderfyniadau a wneir bob amser.

**1.5** Pan mae plentyn yn cael ei dderbyn i ofal, mae gan yr awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu a hyrwyddo ei lesiant. Ochr yn ochr â gofal diogel a dibynadwy ac ymateb i angen y plentyn i fod yn iach, rhaid i awdurdodau gefnogi cyrhaeddiad addysgol y plentyn.

**1.6** Fel rhieni cyfrifol, ni fyddai gennym ddyheadau na disgwyliadau isel ar gyfer ein plant, ac ni fyddem yn derbyn cyrhaeddiad addysgol isel heb herio hynny. Rhaid i rieni corfforaethol fabwysiadu dull tebyg. Rydym wedi dysgu trwy ymgynghori â phlant fel rhan o'n gwaith o gasglu tystiolaeth nad oedd y rhan fwyaf ohonynt yn brin o ddyhead. Yn aml, gwelwyd fod gan blant iau lawer o uchelgeisiau clir. Mae angen i ni sicrhau bod y cymorth iawn ar waith ym mhob rhan o'r system fel eu bod yn cael pob cyfle i wireddu'r uchelgais hwnnw.

**1.7** Mae yna gysylltiad amlwg rhwng cyflawniad addysgol isel a llesiant cyffredinol. Os yw'r dysgwyr yn anhapus, yn bryderus neu'n ei chael hi'n anodd meithrin perthynas, mae'n annhebygol y byddant yn perfformio'n dda a byddant yn cael canlyniadau gwael. Mewn achosion lle mae yna dystiolaeth o broblemau iechyd meddwl, mae hyn yn gallu cymhlethu'r anawsterau ym maes addysg.

Wrth drafod yr un pwynt, atebodd bachgen mewn grŵp ffocws 16+: “Roeddwn i’n teimlo mod i ddim yn perthyn gan fy mod i mewn gofal a doeddwn i ddim yn cael digon o gymorth preifat, un-i-un. Ac roedd hynny’n gwneud i mi deimlo’n rhwystredig, yn unig ac yn fregus.” (*Understanding the educational experiences and opinions, attainment, achievement and aspirations of looked after children in Wales – adroddiad ymchwil gan CASCADE, Prifysgol Caerdydd*)

**1.8** Rydym yn cydnabod bod rhai ysgolion a darparwyr dysgu eraill wedi rhoi arferion effeithiol ar waith a’u bod yn gallu dangos bod perfformiad y plant sy’n derbyn gofal ganddynt wedi gwella o ganlyniad. Nid yw hwn yn arfer digon cyffredin, fodd bynnag, ac mae’n ddull y mae’n rhaid i ni ei roi ar waith yn gyson ledled Cymru.

**1.9** Rydym yn gwybod bod yna amryw o ffactorau ‘bywyd’ sydd, oherwydd amgylchiadau personol y plentyn, yn gallu effeithio ar ei allu i ddysgu a pherfformio’n dda yn yr ysgol. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd archwilio’r syniad y gall y system ofal ei hun fod yn cyfrannu at ganlyniadau gwael. Yn ei ymateb i’r ymgynghoriad, nododd y Rhwydwaith Maethu saith ffactor sy’n cyfrannu at ganlyniadau gwael:

- diffyg uchelgais ar gyfer y plant, yr ymddengys sy’n bodoli o fewn y system gofal cyhoeddus
- ansefydlogrwydd o ran lleoliad
- cyfraddau uchel o wahardd o’r ysgol a darpariaeth addysgol o ansawdd gwael
- prinder cymorth adferol
- gadael gofal maeth yn rhy ifanc
- cyraeddiadau addysgol isel y gofalwyr maeth
- methiant rhianta corfforaethol.

**1.10** Mae angen i ni oresgyn y rhwystrau hyn i sicrhau bod profiadau addysg yn gadarnhaol ac yn sicrhau gwell canlyniadau. Ychydig iawn o blant sy’n mynd ymlaen i addysg bellach neu uwch, er enghraifft. Mae yna lawer o heriau yn ymwneud â phontio ac nid yw’r angen am gymorth yn dod i ben pan mae plant a phobl ifanc yn gadael gofal.

**1.11** Mae’r ffaith bod cymaint o blant sy’n derbyn gofal yn dod i gysylltiad â’r system cyfiawnder ieuenctid yn peri pryder mawr. Mae llai nag 1% o boblogaeth plant y DU yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol, ond mae bron i 50% o’r plant sydd yn y ddalfa mewn gofal neu wedi bod mewn gofal (Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai 2014). Mae’r ffactorau risg sy’n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol ac ymddieithrio rhag addysg yn perthyn yn agos. Mae tangyflawni yn yr ysgol, ymddieithrio, sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael a mynychder anghenion addysgol arbennig yn amlwg yn y boblogaeth cyfiawnder ieuenctid. Mae’n glir bod ymgysylltu ag addysg neu hyfforddiant yn ffactor pwysig o ran atal a lleihau troseddau.

**1.12** Mae plant sy’n derbyn gofal sy’n dod i gysylltiad â’r system cyfiawnder ieuenctid yn agored iawn i niwed, yn enwedig os ydynt yn byw mewn llety diogel neu wedi’u lleoli mewn llety ‘y tu allan i’r ardal’.

**1.13** Mae’r Rhaglen Lywodraethu a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi pa mor bwysig yw gwella bywydau a lles plant sy’n derbyn gofal i Lywodraeth Cymru. Mae Deddf 2014 (adran 78) yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdod lleol i

ddiogelu a hyrwyddo llesiant unrhyw blentyn sydd yng ngofal yr awdurdod ac yn amlinellu sut y byddai'n ofynnol i'r awdurdod gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn. Mae hefyd yn gosod dyletswydd gadarnhaol ar yr awdurdod i hyrwyddo cyflawniad addysgol y plant hyn ac yn diwygio Deddf Plant 2004 (adran 25) i ddweud y dylai awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol gydweithredu i wella llesiant plant, gan gynnwys canlyniadau addysgol.

**1.14** Ym mis Gorffennaf 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell er mwyn cryfhau lleoliadau, iechyd, addysg a llesiant plant sy'n derbyn gofal. Roedd y canllawiau hyn, sy'n dal yn ddilys a pherthnasol, yn amlinellu camau gweithredu i gryfhau trefniadau ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys yr angen i ddynodi Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE) i oruchwylio cynllun addysg plentyn sy'n derbyn gofal a mynd i'r afael ag anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal yn ardal yr awdurdod lleol.

**1.15** Wrth geisio dod o hyd i leoliad gofal priodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae'n ofynnol i awdurdodau ystyried argaeledd lleoliad addysgol addas. Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae hyn yn golygu lle llawn amser mewn ysgol brif ffrwd leol *sy'n cychwyn yn ddi-oed.* Ac eithrio am resymau iechyd a diogelwch clir, er enghraifft, pan fydd angen lle diogel ar blentyn ar unwaith, ni ddylid trefnu lleoliadau gofal oni bai bod modd darparu lefel briodol o addysg. Dylai'r gwasanaethau addysg helpu gweithiwr cymdeithasol plentyn i ddod o hyd i leoliad addysgol priodol, gan gynnwys lleoliadau y tu allan i'r awdurdod.

**1.16** Roedd yr elfennau addysg allweddol eraill yn cynnwys:

- y brif ystyriaeth wrth drefnu lleoliad plentyn yw anghenion iechyd ac addysg y plentyn, ac yn benodol unrhyw anghenion iechyd meddwl
- datblygu Cynllun Addysg Personol effeithiol o ansawdd uchel o fewn 20 diwrnod i blentyn yn dechrau derbyn gofal neu'n dechrau mewn ysgol newydd
- trosglwyddo cofnodion addysg yn brydlon
- gofyniad i bob cartref preswyl ddynodi gweithiwr cyswllt sy'n gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad addysgol y plentyn.

**1.17** Cyflwynodd Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (adran 20) drefniadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru ddynodi aelod o staff i fod â phrif gyfrifoldeb am hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal.

**1.18** Roedd y ddogfen 'Pe bai'n blentyn i mi: Arweiniad i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2009 yn atgoffa aelodau etholedig am eu cyfrifoldeb i weithredu fel rhieni corfforaethol da i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

**1.19** Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi amrywiaeth o ystadegau yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys yr adroddiad ystadegol blynyddol Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru sy'n cyflwyno gwybodaeth am blant sy'n destun gorchmynion gofal a phlant eraill sy'n cael llety gan eu hawdurdod lleol. Mae Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru yn cynnwys data ar ganlyniadau addysgol ym mhedwar cyfnod allweddol y categorïau Plant mewn Angen (un o'r rhain yw plant sy'n derbyn gofal) ynghyd â data cyffredinol 'Disgyblion yng Nghymru'.

**1.20** Ar sail data Cyfrifiad Plant mewn Angen 2014 ac adroddiad ystadegol plant sy’n derbyn gofal 2015, mae’r adran hon yn rhoi dadansoddiad o nodweddion plant sy’n derbyn gofal ac yn cymharu eu perfformiad addysgol â pherfformiad y boblogaeth ysgolion prif ffrwd. Mae’r canlyniadau’n dangos bod y system yn methu’r rhan fwyaf o blant sy’n derbyn gofal ym maes addysg ac mae’n rhaid i ni gydnabod bod y ffigurau hyn yn deillio o fethu â diwallu anghenion dysgwyr.

**1.21** Mae ystadegau plant sy’n derbyn gofal 2015 yn dangos bod:

- 5,617 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol Cymru ar 31 Mawrth 2015.

## Rhyw

3,020 o fechgyn

- 155 – o dan 1 oed
- 545 - 1-4 oed
- 770 - 5-9 oed
- 1,060 - 10-15 oed
- 490 - 16-17 oed

2,595 o ferched

- 135 – o dan 1 oed
- 450 - 1-4 oed
- 580 - 5-9 oed
- 980 - 10-15 oed
- 450 - 16-17 oed

## Ethnigrwydd

- nodwyd bod 5,115 o blant yn Wyn
- nodwyd bod 175 o blant yn Gymysg eu Hil
- nodwyd bod 75 o blant yn Asiaidd neu’n Asiaidd Brydeinig
- nodwyd bod 55 o blant yn Ddu neu’n Ddu Prydeinig
- nodwyd bod 40 o blant yn perthyn i grwpiau ethnig eraill
- nid oedd ethnigrwydd 155 o blant sy’n derbyn gofal yn hysbys.

Noder: Mae’r data wedi’i dalgrynnu i’r 5 agosaf at ddibenion datgelu.

## Lleoliadau

- cafodd 71% o blant un lleoliad yn ystod y flwyddyn
- cafodd 20% o blant ddau leoliad yn ystod y flwyddyn
- cafodd 9% o blant dri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn.

**1.22** Mae dadansoddiad Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru yn cadarnhau’r grwpiau canlynol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yn 2014:


- mae 92% o blant rhwng 5 a 15 oed yn mynychu ysgolion prif ffrwd

- mae 8% o blant rhwng 5 a 15 oed yn mynychu ysgolion arbennig – fodd bynnag, ni fyddai disgwyl i lawer o'r plant hyn gyflawni'r lefel Dangosydd Pwnc Craidd disgwyliedig
- mae gan 14% o blant anabledd.

## Cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ac anghenion addysgol arbennig

- roedd 26% o blant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- nid oedd gan 32% o blant unrhyw anghenion addysgol arbennig
- roedd gan 68% o blant ryw fath o anghenion addysgol arbennig.


**Siart 1:** Y bwlch yn y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol rhwng canlyniadau addysgol plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a'r holl ddisgyblion ar 31 Mawrth 2014




Foundation Phase – Cyfnod Sylfaen
Key Stage 2 CSI – Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 2
Key Stage 3 CSI – Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 3
Key Stage 4 – Cyfnod Allweddol 4
All children in need – Yr holl blant mewn angen
Children not looked after – Plant nad ydynt yn derbyn gofal
Children looked after – Plant sy'n derbyn gofal
Pupils in Wales – Disgyblion yng Nghymru

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant mewn Angen
* Cyfnod Allweddol 4: 5 TGAU gradd A*- C gan gynnwys TGAU gradd A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg


**Siart 2:** Y bwlch yn y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol rhwng canlyniadau addysgol plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a'r holl ddisgyblion ar 31 Mawrth 2013




Foundation Phase – Cyfnod Sylfaen
Key Stage 2 CSI – Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 2
Key Stage 3 CSI – Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 3
Key Stage 4 – Cyfnod Allweddol 4
All children in need – Yr holl blant mewn angen
Children not looked after – Plant nad ydynt yn derbyn gofal
Children looked after – Plant sy'n derbyn gofal
Pupils in Wales – Disgyblion yng Nghymru

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant mewn Angen
* Cyfnod Allweddol 4: 5 TGAU gradd A*- C gan gynnwys TGAU gradd A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg

**Siart 3:** Y bwlch yn y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol rhwng canlyniadau addysgol plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a'r holl ddisgyblion ar 31 Mawrth 2012




Foundation Phase – Cyfnod Sylfaen
Key Stage 2 CSI – Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 2
Key Stage 3 CSI – Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 3
Key Stage 4 – Cyfnod Allweddol 4
All children in need – Yr holl blant mewn angen
Children not looked after – Plant nad ydynt yn derbyn gofal
Children looked after – Plant sy'n derbyn gofal
Pupils in Wales – Disgyblion yng Nghymru

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant mewn Angen
* Cyfnod Allweddol 4: 5 TGAU gradd A*- C gan gynnwys TGAU gradd A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg

# Pennod 2: Yr achos o blaid newid

**2.1** Mae angen i ni roi camau effeithiol a chynaliadwy ar waith i fynd i'r afael â thanberfformio addysgol, a sicrhau ffocws cryf ar gefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol (llesiant).

**2.2** Mae lefelau perfformiad yn annerbyniol ar hyn o bryd, ac nid oes digon o gynnydd yn cael ei wneud o un flwyddyn i'r llall. Mae gormod o blant sy'n derbyn gofal yn gadael addysg orfodol ag ychydig iawn o gymwysterau, os o gwbl, ac maent yn cael eu methu gan system sy'n eu troi'n unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn aml iawn, neu'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid. Nid yw hyn yn digwydd bob amser, ond mae'n rhaid i ni wella cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal mewn system sy'n rhy barod i dderbyn bod perfformiad gwael yn anochel i ryw raddau.

**2.3** Yn ôl ystadegau 2015 roedd 164 o'r 405 o bobl ifanc yn gadael gofal a gafodd eu pen-blwydd yn 19 oed yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, yn NEET. Mae'n bosibl na fydd addysg dda a chanlyniadau llwyddiannus mewn arholiadau yn rhwystro plant sy'n derbyn gofal rhag gwneud y dewisiadau anghywir mewn bywyd, ond bydd sylfaen addysg gref yn eu paratoi ar gyfer bywyd, yn helpu i agor cyfleoedd iddynt ac yn llywio dewisiadau bywyd gwell.

**2.4** Un o'r chwe egwyddor allweddol yn y ddogfen Cymwys am Oes yw bod dysgwyr yn ganolog i bopeth a wnawn. Mae dyheadau uchel gennym ni ar gyfer yr hyn a gyflawnant a'u llesiant: ni ddylai cefndir plentyn neu berson ifanc byth gyfyngu ar yr hyn a gyflawnant. Er mwyn rhoi lle canolog i'r dysgwr yn ein system addysg, mae'n rhaid i ni gael dysgu perthnasol, heriol sy'n cael ei werthfawrogi, wedi'i ddarparu gan athrawon, darlithwyr a staff cefnogi sy'n ysbrydoli a fydd, yn eu tro, yn creu dysgwyr ysbrydoledig.

## Tueddiadau ystadegol

**2.5** Mae'r wybodaeth hon yn cymharu cyfraddau cyrhaeddiad rhwng blynyddoedd, ac nid yw'n cymharu'r un plant. Cydnabyddir bod y ganran uchel o ddysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anawsterau ymddygiad, emosiynol neu gymdeithasol yn cael effaith fawr ar gyfraddau cyrhaeddiad.

**2.6** Yn 2014, cafwyd gwelliant amlwg yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafwyd cynnydd o 6% (o 53% i 59%) yng Nghyfnod Allweddol 2, cynnydd o 10% (o 36% i 46%) yng Nghyfnod Allweddol 3 a chynnydd o 4% (o 13% i 17%) yng Nghyfnod Allweddol 4.

**2.7** Er bod perfformiad wedi gwella, o gymharu â pherfformiad cyffredinol disgyblion yng Nghymru, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y cyfraddau cyrhaeddiad ym mhob Cyfnod Allweddol. Er enghraifft, yn 2014, roedd cyfradd cyrhaeddiad y categori disgyblion cyffredinol yng Nghymru yng Nghyfnod Allweddol 3 yn 81% o gymharu â 46% ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'n rhaid i ni barhau i wella canlyniadau addysgol plant ym mhob cyfnod allweddol.


**2.8** Casglwyd ystadegau'r Cyfrifiad Plant mewn Angen am y tro cyntaf yn 2010. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ddigon o wybodaeth o gyfrifiadau blaenorol i ddilyn taith addysgol plentyn penodol sy'n derbyn gofal o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag,

bydd crynhoi'r wybodaeth hanesyddol honno am blant unigol yn hollbwysig er mwyn llywio polisi ac ymarfer i'r dyfodol.

**2.9** Mae graddau'r gwelliant yng nghyfran y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru sydd wedi ennill cymwysterau dros y pedair blynedd diwethaf yn debyg iawn i'r duedd gyffredinol ledled y DU. Oherwydd y gwahaniaethau rhwng y systemau addysg, nid oes modd cymharu holl lefelau cymwysterau y plant hyn. Fodd bynnag, gallwn gymharu'r gyfradd â chyfradd Lloegr a'i rhanbarthau yng Nghyfnod Allweddol 4.

**2.10** Mae'r tabl isod yn cymharu cyrhaeddiad Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr a Chymru yng Nghyfnod Allweddol 4 rhwng 2010 a 2013. Mae rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr wedi'i gynnwys gan ei fod yn debyg i Gymru o safbwynt ffactorau economaidd-gymdeithasol. Ni allwn ddarparu ystadegau ar ôl 2013 gan fod y systemau addysg yng Nghymru a Lloegr wedi mynd yn rhy annhebyg i'w cymharu. Mae'r ystadegau hyn yn dangos bod cyrhaeddiad addysgol isel plant sy'n derbyn gofal yn gyffredin yn Lloegr yn ogystal â Chymru.

**Siart 4:** Cymharu cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal: Canran y rhai a gafodd 5+ TGAU gradd A*-C neu gymwysterau cyfwerth gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg




Wales – Cymru
England – Lloegr
North East – Gogledd-ddwyrain Lloegr

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant mewn Angen

**2.11** Mae cyrhaeddiad addysgol isel wedi bod yn broblem ers amser maith, ac ychydig iawn o arwyddion sydd y bydd hynny'n newid, er gwaethaf y cymorth a gynigir. Croesewir y gwelliant mewn perfformiad addysgol a gofnodwyd rhwng 2013 a 2014, ac yn gam cadarnhaol ymlaen y mae'n rhaid iddo barhau. Trwy'r ymchwil a gynhaliwyd i lywio'r strategaeth hon, rydym yn ymwybodol o'r dyheadau uchel sydd gan y plant eu hunain. Ni allwn ganiatáu i sefyllfa hanesyddol neu gymharol perfformiad cyfoedion arwain at ddyheadau a disgwyliadau isel ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ymysg y rhai sydd agosaf atynt. Mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd eraill o wella perfformiad addysgol, megis trwy greu mwy o sefydlogrwydd yn y lleoliad gofal.

**2.12** Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod llawer yn cael ei wneud i gefnogi plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys ymrwymiad y rhai sy'n gweithio gyda nhw i wella eu cyrhaeddiad addysgol a'u cyfleoedd bywyd. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth glir bod angen i ni gryfhau polisi ac ymarfer a gwella arweinyddiaeth a chydweithredu.

# Pennod 3: Beth sydd ar waith yn barod?

**3.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella cyfleoedd bywyd a chanlyniadau holl blant Cymru, beth bynnag yw eu cefndir teuluol a'u dechrau mewn bywyd.

**3.2** Gwyddom fod ymyriadau cynnar wedi'u targedu yn cael effaith gadarnhaol ar newid canlyniadau ar gyfer plant sy'n cael eu nodi fel plant 'mewn angen'. Mae nifer o raglenni a pholisïau eisoes yn helpu ac yn cynorthwyo teuluoedd sy'n wynebu anawsterau, sy'n deillio'n aml o'r ffaith eu bod yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd ac yn golygu ei bod yn anodd iddynt ddarparu'r gofal angenrheidiol ar gyfer eu plant. Mae angen cymorth amlasiantaethol effeithiol er mwyn helpu i atal y plant hyn rhag cael eu rhoi mewn gofal. Serch hynny, dan rai amgylchiadau, y ffordd fwyaf priodol o symud ymlaen yw rhoi'r plentyn mewn gofal a rhoi'r cymorth priodol iddo.

**3.3** Nod ein rhaglen blynyddoedd cynnar yw rhoi cymorth ac arweiniad cadarn i deuluoedd sy'n wynebu amgylchiadau anodd a heriol. Ein prif amcan yw cynorthwyo teuluoedd i ofalu am eu plant. Os nad yw hynny'n bosibl, rydym yn disgwyl rhagor o sefydlogrwydd ar gyfer y plant hynny o safbwynt eu cyfeillgarwch ag eraill, eu bywydau ysgol ac ar gyfer y rhai sy'n eu cynorthwyo. Mae ein rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn gwneud cyfraniad allweddol at gefnogi plant sy'n agos iawn at gael eu rhoi mewn gofal, plant sy'n cael eu hailintegreiddio gyda'u rhieni biolegol, trefniadau cyswllt neu blant nad ydynt yn derbyn gofal mwyach yn dilyn cyfnod mewn gofal.

**3.4** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

**3.5** Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd yn sail i'r gwaith o wella canlyniadau ar gyfer plant a'u teuluoedd. Bydd Deddf 2014 yn dod i rym ym mis Ebrill 2016 ac fe'i cefnogir gan becyn o Reoliadau a Chodau Ymarfer y mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â nhw wrth gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

**3.6** Mae'r **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol** ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth wedi'i gyhoeddi. Bydd yn darparu cyd-destun ystyrlon a chynhwysfawr i wella canlyniadau plant sy'n derbyn gofal yn ogystal â'r boblogaeth ehangach o blant ac oedolion sydd angen gofal a chymorth. Mae'n egluro ystyr llesiant, beth sy'n bwysig i bobl a'r dangosyddion canlyniadau a ddefnyddir i fesur a yw llesiant yn cael ei gyflawni.

**3.7** Mae fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol wedi'i ddatblygu fel sail i'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Mae i'w weld yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r fframwaith yn cynnwys mesurau ansawdd, safonau a pherfformiad sy'n dangos cyfraniad awdurdodau lleol at helpu pobl i gyflawni llesiant.

**3.8** Mae Rhan 6 o Ddeddf 2014 yn cyflwyno amrywiaeth o ddarpariaethau i gryfhau dewisiadau a sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal i blant sy'n derbyn gofal a fydd:

- sicrhau eu bod yn cael eu lleoli yn agos at eu cymuned leol neu mewn cymuned gyfagos oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny a bod

hynny'n diwallu anghenion y plentyn

- eu galluogi plant i gael eu lleoli gyda'u darpar fabwysiadwyr
- darparu iddynt gael aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl troi'n ddeunaw.

**3.9** Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 6 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw arbennig i anghenion addysg a hyfforddiant plentyn sy'n derbyn gofal wrth drefnu lleoliad a sicrhau nad yw'r lleoliad yn amharu ar addysg neu hyfforddiant plentyn. Yn ogystal, mae rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf yn gosod gofynion arbennig ar awdurdodau lleol wrth drefnu lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghyfnod Allweddol 4, gan gydnabod y gall symud plant ynghanol cwrs TGAU effeithio ar eu gallu i ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnynt i fynd ymlaen i addysg bellach neu uwch neu sicrhau cyflogaeth[1]. Bydd cynllun llwybrau plant a phobl ifanc hyd at 25 oed sy'n parhau mewn addysg neu'n dychwelyd i addysg yn nodi'r cymorth a gânt gan awdurdodau lleol.

**3.10** Cadarnhaodd Cymwys am Oes – cynllun gwella addysg ar gyfer pobl ifanc 3-19 oed yng Nghymru ein hymrwymiad i godi safonau gan amlinellu ein gweledigaeth y bydd pob dysgwr yn mwynhau dysgu sy'n ei ysbrydoli i lwyddo. Mae gennym nod syml, sef y dylai pob plentyn a pherson ifanc, beth bynnag yw ei gefndir a'i ddechrau mewn bywyd, elwa ar addysgu a dysgu rhagorol. Gwnaeth adolygiad annibynnol – Dyfodol Llwyddiannus – a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, argymhellion ar gyfer trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd. Derbyniwyd yr argymhellion yn llawn ym mis Mehefin 2015, a chafodd cynllun gweithredu, Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes, ei gyhoeddi yn Hydref 2015. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu gyda gweithwyr addysg proffesiynol ledled Cymru, gyda'r nod o sicrhau ei fod ar gael i safleoedd ac ysgolion erbyn mis Medi 2018.

**3.11** Mae Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n derbyn Gofal) (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau derbyn i dderbyn plant sy'n derbyn gofal os bydd rhiant corfforaethol yn gwneud cais i'r plant hynny gael eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyniadau. Rhaid i'r rhiant corfforaethol ymgynghori â'r awdurdod derbyn perthnasol cyn gwneud y cais a rhaid iddo wneud pob ymdrech i sicrhau addasrwydd yr ysgol o ystyried anghenion y plentyn.

**3.12** Mae'r Codau Derbyn ac Apelau i Ysgolion 2013 yn amlinellu trefniadau ar gyfer derbyn plant, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal, i ysgolion. Yn ogystal, dylai plant sy'n derbyn gofal neu a fu'n derbyn gofal gael blaenoriaeth os bydd mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion.

**3.13** Er ei bod hi'n hanfodol bod plant nad oes ganddynt le mewn ysgol yn cael lle yn gyflym, mae adran 433 o Ddeddf Addysg 1996 yn caniatáu gohirio'r derbyn tan ddechrau tymor nesaf yr ysgol er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y plant. Os defnyddir yr opsiwn hwn i ohirio'r derbyn, ni ddylai roi plant agored i niwed, megis y rhai sy'n derbyn gofal, dan anfantais.

**3.14** Mae'r Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014 yn galluogi plant sy'n derbyn gofal i aros yn yr un ysgol, lle bo hynny'n ymarferol, hyd yn oed pan fydd eu lleoliad preswyl yn newid.

---

[1] Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

**3.15** Fel mater o arfer, dylai cymorth i ddysgwyr gynnwys mewnbwn gan wasanaethau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol awdurdodau lleol, yn ogystal ag amryw o wasanaethau perthnasol eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau addysg. Mae hyn yn allweddol o ran cyflwyno agwedd gyfannol at gysyniad ac ymarfer cyfrifoldeb corfforaethol.

**3.16** Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr hyd at 19 oed (ac weithiau'n cynnwys dysgwyr 19 oed) ac i ddarparu cludiant am ddim o dan amgylchiadau penodedig. Mae awdurdodau lleol yn penderfynu pa ysgol yw'r ysgol addas agosaf trwy ystyried amrywiaeth o feini prawf, megis oedran, gallu a thueddfryd dysgwr, gan gynnwys unrhyw anawsterau dysgu. O dan y mesur, gall plant sy'n derbyn gofal gael cludiant am ddim i ysgolion, heblaw'r ysgolion addas agosaf, oherwydd yr angen i gynnal cysondeb mewn addysg neu gyswllt â brodyr a chwiorydd neu ffrindiau i hyrwyddo llesiant.

**3.17** Mae'r Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014 yn argymell y dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion y rhai sy'n wynebu risg o fod yn NEET fel eu bod yn cael cyfleoedd rhesymol i ddewis o blith lleoliadau dysgu a hyfforddiant.

**3.18** Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddwyd y Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r Bil hwn yn cyflwyno fframwaith deddfwriaethol unedig arfaethedig i ddisodli'r fframweithiau deddfwriaethol ar wahân presennol yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r gwaith o asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

**3.19** Cynigiwyd y dylai Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) ddisodli datganiadau o AAA, asesiadau ôl-16 (o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000) a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol a chynlluniau ôl-16 ar gyfer pob dysgwr ag ADY sy'n mynychu neu'n dymuno mynychu ysgol a gynhelir, uned cyfeirio disgyblion, Sefydliad Addysg Bellach neu ddarpariaeth ôl-16 arbenigol. Mae'r Bil drafft hefyd yn cynnwys darpariaeth a fyddai'n caniatáu rheoliadau i gael eu gwneud am gymorth i'w ddarparu gan awdurdodau lleol i hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal a phlant a arferai dderbyn gofal, ac ar gyfer unrhyw Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol sydd ei hangen arnynt mewn perthynas ag unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol. Y bwriad yw darparu ar gyfer cynllun addysgol unigol i blant sy'n derbyn gofal, sy'n cyfuno'r Cynllun Addysg Personol gyda'r Cynllun Datblygu Unigol.

**3.20** Er y cydnabyddir na fydd gan bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal ADY, mae'r Bil drafft yn dilyn Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn 2014 sy'n dadlau bod y gorgyffwrdd rhwng cynnwys tebygol CDU a CAP sydd eisoes yn bodoli, a'r gyfran sylweddol o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd ag ADY, yn golygu bod sail resymegol ar gyfer dod â'r ddau gynllun hwn ynghyd.

**3.21** Y Grant Amddifadedd Disgyblion yw prif fodd Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ariannol i wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae'r grant yn cael ei ddyrannu i gonsortia addysg rhanbarthol i ddarparu cymorth strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac, ym mis Ebrill 2015, aethom ati i gyflwyno hyblygrwydd yn y telerau ac amodau ariannu i alluogi consortia i gefnogi ymyriadau sy'n targedu plant sydd wedi'u

mabwysiadu neu sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddeall pa ymyriadau effeithiol allai gael yr effaith fwyaf ar y dysgwyr hyn.

**3.22** Rydym yn gwybod bod plant sy'n derbyn gofal yn wynebu rhwystrau penodol a all effeithio ar eu gallu i bontio'n llwyddiannus i ddysgu pellach. Maent yn fwy tebygol o fod â chyflawniadau addysgol is na'u cyfoedion, ac efallai y byddant angen cyngor, arweiniad ac anogaeth ychwanegol i ddeall a chael mynediad at y gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt. Pan fyddant mewn dysgu ôl-16, efallai y byddant yn amharod i ddatgelu eu statws fel plentyn sy'n derbyn gofal neu blentyn sy'n gadael gofal. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd dull cyfannol gan wahanol asiantaethau sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi'r plant hyn fel y gall gwybodaeth gael ei rhannu'n ddiogel gyda'r rhai sydd angen y wybodaeth honno, ac er mwyn diwallu anghenion y dysgwr.

**3.23** I helpu i sicrhau bod dysgwyr yn aros ar eu cwrs ac yn cyflawni eu nodau dysgu, rhaid i'r coleg sicrhau ei fod yn rhoi cyfarwyddiadau clir ynglŷn â gwybodaeth. Mae trefniadau ar gyfer cefnogi dysgwyr mewn sefydliadau AB yn effeithiol ar y cyfan, gyda thiwtoriaid, mentoriaid, anogwyr dysgu ac adrannau gwasanaethau myfyrwyr yn darparu rhwydwaith cryf. Fodd bynnag, efallai y bydd gan blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal anghenion lluosog a chymhleth sy'n gofyn am gymorth mwy penodol, gyda hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth staff yn sail i hynny. Mae gan sefydliadau AB swyddogaeth bwysig o ran adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o roi'r gorau i'w cwrs ac yn darparu cymorth i gadw eu diddordeb.

**3.24** Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn darparu cymhelliant o £30 yr wythnos i bobl ifanc barhau mewn addysg ar ôl gadael yr ysgol. Grant o hyd at £1,500 sy'n cael ei asesu ar sail incwm yw Grant Dysgu'r Cynulliad AB (ar gyfer y rhai 19+), a'i nod yw annog mwy o bobl i barhau â'u haddysg, lle na fyddai hynny'n bosibl fel arall o reidrwydd. Er mwyn sicrhau bod y cymorth hwn yn fwy hygyrch ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, mae'r broses o wneud cais am y grant wedi'i symleiddio, ac mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr sy'n gweinyddu'r ddau grant yn ymdrin â'u ceisiadau yn gyflym.

**3.25** Yn 2010, ymestynnodd Buttle UK ei Farc Safon i'r sector AB er mwyn datblygu'r gwaith o'i gyflwyno'n llwyddiannus ym maes addysg uwch. Mae'r Marc Safon wedi'i ddyfarnu i sefydliadau sy'n dangos bod ganddynt strategaethau cadarn i gefnogi dysgwyr o gefndir gofal. Mae'n cynnwys meini prawf yn ymwneud â gwaith partneriaeth effeithiol, hygyrchedd darpariaeth a chymorth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, arweiniad diduedd a hyfforddiant staff.

**3.26** Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddodd Buttle UK ei benderfyniad i roi'r gorau i ddyfarnu'r Marc Safon, ac i ganolbwyntio yn hytrach ar weithio gyda'r sectorau AB ac AU i sefydlu darpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Rydym yn disgwyl y bydd pob lleoliad addysgol yng Nghymru yn dilyn egwyddorion Marc Safon Buttle UK ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor ac arweiniad diduedd, gwybodaeth glir am y cymorth ariannol a'r cymorth arall sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal a dynodi aelod o staff i weithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Er bod y Marc Safon wedi'i dynnu'n ôl, rydym yn parhau i weithio gyda'r sector AB i ymgorffori'r egwyddorion hyn ac adeiladu ar arferion gorau. Mae Buttle UK wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer sefydliadau addysg bellach sy'n cynnwys arferion gorau o bob cwr o'r DU: Supporting Learners in Further Education.

**3.27** Mae Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn nodi ei ymrwymiad i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yng nghyd-destun ei thema strategol o ehangu mynediad sy'n ceisio *sicrhau cynhwysiant, dilyniant a llwyddiant mewn addysg uwch*. Mae dull strategol CCAUC o Ehangu Mynediad a'i Strategaeth Tlodi Plant hefyd yn cydnabod y cyfraniad y gall addysg uwch ei wneud at gefnogi pobl â chefndir gofal.

**3.28** Mae prifysgolion yn cefnogi'r plant hyn a'r rhai sy'n gadael gofal cyn ac yn ystod eu cyfnod ym maes addysg uwch fel rhan o'u hymrwymiad i strategaethau cynlluniau ffioedd ac ehangu mynediad. Un dull o ehangu mynediad yw Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Cymru gyfan. Mae'r tair Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach rhanbarthol yn darparu rhaglenni dyhead addysgol a gwella sgiliau ar gyfer ysgolion a chymunedau mewn partneriaeth â darparwyr addysg bellach a darparwyr addysg eraill.

**3.29** O ganlyniad i Farc Safon Buttle UK, mae mwy o waith yn cael ei wneud ym maes addysg uwch i goladu a monitro data yn ymwneud â'r rhai sy'n gadael gofal. Mae yna bethau sy'n amharu ar addysg llawer o'r rhai sy'n gadael gofal, ac mae angen cyfleoedd dysgu eraill arnynt cyn eu bod yn barod i lwyddo ym maes addysg uwch. Er nad oes llawer o ddata wedi'i gasglu hyd yma, mae nifer y rhai sy'n gadael gofal ac yn mynd ymlaen i addysg uwch yn parhau i fod yn isel. Mae prifysgolion yn sylweddoli bod paratoi pobl ifanc i adael gofal awdurdodau lleol yn hollbwysig i'w cyfleoedd bywyd yn y dyfodol ac maent yn darparu nifer o ymyriadau gan gynnwys cyfle i ymweld â champysau prifysgolion, mentora, gwybodaeth am AB ac AU, cyngor ac arweiniad a gweithdai AU ar gyfer gofalwyr a'r rhai sy'n cefnogi'r plant hyn.

**3.30** Ym mis Mawrth 2011, cyflwynodd y Rheoliadau Bwrsari Addysg Uwch ddyletswydd ar awdurdodau lleol i dalu bwrsari o £2,000 i unrhyw berson ifanc a fu'n derbyn gofal sy'n dymuno dilyn cwrs mewn prifysgol. Yn sgil ymrwymiad prifysgolion i ehangu mynediad i unigolion o gefndiroedd difreintiedig, mae llawer ohonynt yn cynnig amrywiaeth o becynnau cymorth ariannol ar sail anghenion unigol. Mae'r bwrsari Addysg Uwch yn ategu pecynnau cymorth o'r fath.

**3.31** Dylai awdurdodau lleol ddarparu cynghorydd personol i weithredu fel mentor i'r sawl sy'n gadael gofal, gan ystyried gofynion cymorth yr unigolyn, ar ôl eu trafod â'r sawl sy'n gadael gofal. Mae'r cynghorydd personol yn hanfodol ar gyfer y rhai yn y system cyfiawnder ieuenctid nad ydynt yn fedrus o reidrwydd o ran cael gafael ar y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo i'w helpu i gael mynediad at addysg ôl-16 neu gyflogaeth.

**3.32** Mae ein Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi'i ddatblygu i gefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fethu â phontio'n llwyddiannus pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae'r fframwaith yn dwyn ynghyd elfennau allweddol o ymarfer effeithiol y profwyd eu bod yn helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc ac yn darparu mecanwaith systematig i helpu awdurdodau lleol i ganfod pwy sydd angen cymorth, sefydlu'r cymorth sydd ar gael ac olrhain cynnydd pobl ifanc wrth iddynt bontio o addysg orfodol i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Cyflwynodd y fframwaith y canlynol:

- cynnig gweithiwr arweiniol o fewn sefydliad perthnasol sy'n gallu darparu cymorth cyson a chyswllt ar gyfer y bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf
- Y Warant i Bobl Ifanc , sef y broses o gynnig, derbyn a chychwyn gwrs addas

mewn addysg neu hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy’n pontio am y tro cyntaf o addysg orfodol yn 16 oed

- Swyddogaeth Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu (EPC) o fewn awdurdod lleol sy’n llywio’r broses adnabod yn gynnar, yn hwyluso’r gwaith o ddyrannu gweithwyr arweiniol fel sy’n briodol ac yn sicrhau dealltwriaeth rhwng partneriaid ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldebau.

**3.33** Mae Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (2012) yn ceisio gwella iechyd meddwl holl bobl Cymru, ac mae’n cydnabod y bydd adnabod a mynd i’r afael â salwch meddwl ymhlith plant a phobl ifanc yn helpu i wella salwch mwy difrifol yn ddiweddarach mewn bywyd. Darperir gwasanaethau iechyd ar sail angen clinigol a mynediad cyfartal i bawb. Fodd bynnag, mae angen i asiantaethau weithio gyda’i gilydd i sicrhau bod y gwasanaethau cywir yn cael eu darparu i’r unigolyn yn brydlon. Yn 2015, cyflwynodd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS) y GIG raglen fawr o newid ac ad-drefnu gwasanaethau. Ymysg pethau eraill, mae’r rhaglen yn ceisio ailwampio ac ad-drefnu rôl CAMHS arbenigol y GIG a’r ffordd y mae’n gweithio gyda darparwyr gwasanaethau cymorth a chefnogaeth emosiynol eraill, megis gwasanaeth cwnsela awdurdod lleol i ddiwallu anghenion pobl ifanc. Ym mis Hydref 2015, aethom ati i lansio ymgynghoriad ar ganllawiau drafft ar gyfer gwasanaethau cwnsela a CAMHS ar waith cydweithredol.

**3.34** Ni ddylai iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant sy’n derbyn gofal gael ei ystyried fel mater annibynnol, ac mae angen iddo gael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar ddarpariaeth, gan gydnabod y ffaith y gall llawer o ffactorau allanol gael effaith gadarnhaol neu negyddol. Mae CAMHS arbenigol yn arbenigo ar ymdrin â’r rhai sy’n dioddef o salwch meddwl difrifol a chymhleth iawn, ond nid mater iechyd yn unig yw hwn ac, i’r rhan fwyaf o bobl ifanc a fydd yn dioddef o broblemau emosiynol lefel isel, bydd meddygon teulu, cynghorwyr, staff a nyrsys ysgol, y Gwasanaeth Lles Addysg, seicolegwyr addysgol a gweithwyr ieuenctid yn gallu darparu cymorth a chefnogaeth.

# Pennod 4: Beth arall sydd angen i ni ei wneud?

**4.1** Ers dechrau 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal sgyrsiau addysgiadol ac adeiladol gyda rhanddeiliaid allweddol o fewn y broses ymgynghori ffurfiol a thu hwnt. Mae hyn wedi helpu i gadarnhau ym mha feysydd y mae angen targedu camau pellach i gefnogi lefelau uwch o berfformiad addysg.

**4.2** Mae'r meysydd hyn – strategol a gweithredol - yn cael eu harchwilio'n fanylach yn y bennod hon. Maent yn sail i'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu ategol ac a fydd yn destun adroddiad blynyddol.

## Strategol:

- hyrwyddo dull gweithredu cenedlaethol cyson er mwyn codi dyheadau ar bob lefel
- darparu arweiniad corfforaethol cryfach sy'n ymrwymo i wella addysg plant sy'n derbyn gofal
- egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud bywydau plant sy'n derbyn gofal
- cryfhau ac atgyfnerthu trefniadau a phartneriaethau pob asiantaeth - gwella cyfathrebu rhwng pawb sy'n gysylltiedig â bywydau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal
- sicrhau ymrwymiad corfforaethol i ddod o hyd i ffyrdd o wneud pethau'n well er mwyn cael dylanwad cadarnhaol ar ganlyniadau addysgol
- defnyddio data'n fwy effeithiol er mwyn deall sut mae modd cael cydbwysedd rhwng cyrhaeddiad a datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol yr unigolyn (llesiant)
- cryfhau lefel y cydweithredu rhwng y Llywodraeth Cymru, consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion, lleoliadau addysgol, gofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal i sicrhau bod penderfyniadau'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.

## Gweithredol:


- nodi a gweithredu'r camau ymarferol sydd eu hangen i oresgyn rhwystrau i ddarpariaeth
- herio tanberfformio mewn ffordd gadarn
- egluro ac alinio'r disgwyliadau gan y swyddogaethau allweddol wrth gefnogi plant sy'n derbyn gofal
- rhannu arferion da a sicrhau cysondeb wrth ddehongli'r canllawiau sydd gennym eisoes
- monitro canlyniadau ar gyfer y cyllid sydd ar gael i gefnogi plant sy'n derbyn gofal
- rhannu gwybodaeth o fewn awdurdodau lleol rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, yn enwedig Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE).

**4.3** Gan ddefnyddio'r meysydd hyn fel sylfaen, mae'r bennod hon yn nodi camau gweithredu amrywiol i gryfhau trefniadau ar sail tair prif thema:

A. Arweiniad effeithiol – swyddogaethau a chyfrifoldebau

B. Datblygu partneriaethau effeithiol a chydweithio

C. Dysgu ac addysgu effeithiol.




**4.4** Mae'n rhaid i'r meysydd hyn weithio'n effeithiol gyda'i gilydd er mwyn sicrhau gwelliant, ac mae gwaith pob un ohonynt yn hollbwysig er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Fe'u cefnogir gan dri maes pwysig arall:


- gwella'r defnydd o ddata
- cryfhau trefniadau ariannu
- cyfranogiad plant i lywio dulliau gweithredu strategol a phenderfyniadau gweithredol.

## A. Arweiniad effeithiol – swyddogaethau a chyfrifoldebau

**4.5** Mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol mewn nifer o ddisgyblaethau ar gael i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal. Maent yn perthyn i bob sector, ac mae gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn cyflawni swyddogaeth arweiniol. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau cywir, mae'n rhaid i bawb ganolbwyntio ar y plentyn wrth gyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

**4.6** Mae'r diagram yn dangos y cysylltiadau amlasiantaethol cymhleth sydd ar waith i ddarparu cymorth i'r plant hyn. Os yw unrhyw un o'r cysylltiadau'n cael ei reoli'n aneffeithiol, mae lles ac addysg y plentyn yn debygol o ddioddef. Mae'n rhaid i bob rhan o'r system ddeall ei chyfrifoldebau a'u cyflawni mewn ffordd briodol ac amserol.

Plant a Phobl Ifanc yn cael eu derbyn i ofal – Asiantaethau a Chysylltiadau




**4.7** Mae'n rhaid i arweiniad ddarparu her, cael ei herio ac arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer plant. Mae llinell atebolrwydd glir yn hanfodol ar bob lefel o'r awdurdod lleol - swyddogion ac aelodau etholedig - i'r corff llywodraethu, consortia addysg rhanbarthol, y pennaeth a'r rhai â chyfrifoldebau penodol, ac athrawon. Mae'n rhaid sicrhau bod gofalwyr, rhieni maeth a'r plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnwys bob cam o'r ffordd hefyd. Heb linellau atebolrwydd clir (a orfodir trwy graffu cadarn) ac ymrwymiad cryf i gefnogi addysg, bydd cyrhaeddiad a chanlyniadau'n parhau'n anfoddhaol.

**4.8** Mae'r adran ganlynol wedi'i llywio gan y gwaith rydym wedi'i wneud trwy ymgynghori, ac mae'n nodi lle mae'n rhaid cryfhau camau gweithredu yn y dyfodol er mwyn gwella arweiniad ac egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau addysgol.

## Llywodraeth Cymru

**4.9** Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'i phartneriaid i sicrhau fframwaith clir er mwyn cyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau y cytunir arnynt yn effeithiol i gefnogi darpariaeth. Byddwn yn hwyluso gwelliant strategol. Byddwn yn cydweithio ag eraill er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn rhannu canlyniadau sydd wedi'u diffinio'n glir, yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

**4.10** Rydym eisoes wedi cyflwyno consortia addysg rhanbarthol sy'n ychwanegu gwerth i'r hyn mae awdurdodau lleol yn gallu ei gyflawni ar eu pennau eu hunain, gan ganiatáu

iddynt rannu arferion da, gwybodaeth a sgiliau, gwella cryfderau lleol a chynyddu capasiti.

**4.11** Mae gwaith rhanbarthol yn elfen allweddol o'r cynllun gweithredu cenedlaethol – Gwella Ysgolion – sydd â'r nod o wneud y gwelliannau sydd eu hangen i alluogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial. Rydym wedi cyflwyno trefniadau newydd yn narpariaeth y Grant Amddifadedd Disgyblion i alluogi darpariaeth gwasanaethau rhanbarthol strategol i gefnogi'r grŵp hwn o ddysgwyr. Rydym yn disgwyl gweld y consortia, awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd – a chyda'r trydydd sector – i ddatblygu amrywiaeth o weithgareddau ac ymyriadau arloesol ac effeithiol i gefnogi dysgwyr.

**4.12** Rydym wedi archwilio'r cysyniad o'r model Pennaeth Ysgol Rhithwir (VSH) sy'n bodoli yn Lloegr. Mae'r VSH yn gweithredu fel cydgysylltydd a hyrwyddwr awdurdod lleol i wneud gwelliannau i addysg plant sy'n derbyn gofal. Yn Lloegr, mae'r VSH yn rheoli'r cyllid Premiwm Disgybl hefyd. Awgrymwyd yn ein dogfen ymgynghori ein bod yn ystyried mabwysiadu model tebyg i'r VSH yng Nghymru. Dywedodd ein rhanddeiliaid wrthym mai'r peth gorau i'w wneud fyddai penodi cydgysylltydd arweiniol ym mhob consortiwm addysg rhanbarthol, yn hytrach nag efelychu'r model awdurdod lleol.

**4.13 Cam gweithredu Rhif 1:** Bydd Llywodraeth Cymru'n helpu pob consortiwm rhanbarthol i nodi cydgysylltydd arweiniol a fydd yn rheoli cyllid a sicrhau bod rhaglen waith strategol gytunedig yn cael ei darparu. Gallai cyfrifoldebau deiliad y swydd gynnwys y canlynol:

- cynllunio gwariant y grant a sicrhau bod y trefniadau grant yn gweithio'n effeithiol i wella'r canlyniadau addysgol ar gyfer y plant
- hyrwyddo arferion da sydd ar waith ar hyn o bryd mewn awdurdodau lleol ledled y rhanbarth i sicrhau darpariaeth gyson o wasanaeth
- trefnu hyfforddiant priodol ar gyfer athrawon, gweithwyr cymdeithasol, ysgolion a gofalwyr maeth ar y cyd
- gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i fonitro effaith hyfforddiant a chymorth a chanlyniadau addysgol plant ledled y rhanbarth.

**4.14 Cam gweithredu Rhif 2:** Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu a chyhoeddi cyngor ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r cydgysylltydd arweiniol.

**4.15** Gall y trefniadau cyfredol ar gyfer cyllid gael ei ddefnyddio i dalu costau'r swydd hon, neu ran o'r costau hynny os nad yw'r swydd yn un lawn amser.

**4.16** Cyflwynodd Adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 drefniadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ddynodi aelod o staff i fod â'r prif gyfrifoldeb am hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol.

**4.17 Cam gweithredu Rhif 3:** Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r unigolyn arweiniol dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion, a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu i gefnogi'r gwaith hwnnw. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb yn y rôl mewn cyd-destun cenedlaethol.

**4.18** Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r canllawiau hyn, byddwn yn:

- cynnal ymarfer mapio i sefydlu pa hyfforddiant sydd ar gael i'r aelod o staff

arweiniol dynodedig a dosbarthu enghreifftiau o arferion da

- comisiynu modiwlau hyfforddi addas i gefnogi ysgolion a staff addysg bellach sydd â chyfrifoldeb dros bobl ifanc sy'n derbyn gofal
- darparu digwyddiadau rhanddeiliaid i hyrwyddo'r modiwlau hyfforddi a'r canllawiau newydd.

**4.19** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfle i ni ailystyried y swyddogaethau statudol er mwyn cefnogi plant sy'n derbyn gofal. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau a fydd yn cryfhau'r gofynion sy'n sicrhau bod plant yn derbyn profiad addysgol sy'n rhoi mwy o foddhad a bod lefel eu cyrhaeddiad addysgol cystal â'u cyfoedion prif ffrwd.

**4.20 Cam gweithredu Rhif 4:** Bydd Llywodraeth Cymru'n atgyfnerthu atebolrwydd corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal trwy God Ymarfer diwygiedig ar rôl statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**4.21 Cam gweithredu Rhif 5**: Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gyda'r nod o ddatblygu ymhellach ddarpariaethau ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Yn arbennig, byddwn yn ystyried y posibiliadau ar gyfer sicrhau bod y gwaith o gynllunio darpariaeth addysg ar gyfer y plant hyn yn cael ei symleiddio, yn hyrwyddo parhad a chysondeb ac yn agored i her a chraffu priodol.

**4.22** Mae Llywodraeth yr Alban yn datblygu gwaith i wella canlyniadau plant sy'n derbyn gofal. Byddwn yn cydweithio'n agos â Llywodraeth yr Alban i archwilio ble mae dulliau amgen yn cael eu rhoi ar waith ac ystyried sut y gallent helpu i gynorthwyo plant o fewn y strwythurau yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ystyried enghreifftiau o arferion da ledled y byd.

**4.23** Rydym yn archwilio cyfleoedd i ddysgu gan wledydd eraill lle mae canlyniadau rhagorol yn cael eu cyflawni ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y dull addysgeg gymdeithasol a ddefnyddir yn yr Almaen a Denmarc. Mae addysgeg gymdeithasol yn ddull o ofalu am blant sy'n cyfuno addysg a gofal, gan ganolbwyntio nid yn unig ar addysg ysgol ond ar brosesau addysgol gydol oes cymdeithasol hefyd.

**4.24 Cam gweithredu Rhif 6:** Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid allweddol i asesu ymarferoldeb cyflwyno rhaglen beilot a fydd yn darparu dull addysgol a gofal cymdeithasol ar y cyd a fydd yn helpu i wella sefydlogrwydd lleoliadau a darparu gweithlu gwell a chryfach yng Nghymru.

## Awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol

**4.25** Mae swyddogaeth yr awdurdod lleol yn hollbwysig, yn enwedig oherwydd y cyfrifoldebau sydd gan aelodau etholedig yn ôl y ddogfen 'Pe bai'n blentyn i mi: Arweiniad i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal ar rai sy'n gadael gofal'. Roedd yr arweiniad yn gyfle i bob aelod etholedig ystyried '*a fyddwn yn gweithredu fel hyn pe bai'n blentyn i mi?*'

**4.26 Cam gweithredu Rhif 7:** Bydd ymgyrch farchnata, hyrwyddo a hyfforddi yn cael ei datblygu i sicrhau bod pob aelod etholedig yn ymwybodol o'r disgwyliadau sydd arnynt i

gefnogi'r plant. Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn helpu i roi'r cam hwn ar waith.

**4.27 Cam gweithredu Rhif 8:** Dylai awdurdodau lleol adolygu swyddogaethau gweithwyr allweddol a sicrhau bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn amlwg ym mhob rhan o'r system. Dylai hyn fod yn unol â chyd-destun cenedlaethol cyson a bennir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn gwneud newidiadau yn annibynnol ar ei gilydd. Yn benodol, dylai awdurdodau lleol wneud trefniadau i:

- sicrhau bod aelod etholedig dynodedig gyda chyfrifoldeb arweiniol am addysg plant sy'n derbyn gofal wedi'i glustnodi a bod ganddo'r sgiliau i ymgymryd â'r swyddogaeth
- archwilio swyddogaethau gweithwyr cymdeithasol a Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) i sicrhau bod cynlluniau ar waith ac yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y plentyn. Mae hyn yn cynnwys adolygu anghenion addysgol, cynnydd a datblygiad plentyn i gefnogi a chryfhau'r broses bresennol
- adolygu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n derbyn Gofal a'r unigolyn dynodedig sydd â chyfrifoldeb arweiniol mewn ysgolion er mwyn sicrhau proses gydgysylltiedig a chydweithredol a chynyddu lefel ac ansawdd y cymorth sydd ar gael. Dylai hyn sicrhau bod cynnydd dysgwyr yn cael ei olrhain yn briodol ar y cyd ag ysgolion a lleoliau addysgol, fel bod ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith yn gyflym lle mae'n ymddangos bod lefelau cyrhaeddiad yn gostwng. Dylid ystyried gwasanaeth a chymorth o'r un safon uchel ar gyfer plant sydd wedi cael eu mabwysiadu neu sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig
- cefnogi gofalwyr maeth, gweithwyr gofal preswyl plant, gofalwyr sy'n berthnasau a rhieni er mwyn sicrhau mai hyrwyddo addysg yw'r elfen bwysicaf ac nad yw tanberfformio'n dderbyniol. Mae'n rhaid sicrhau bod gofalwyr – drwy hyfforddiant os oes angen – yn meddu ar y sgiliau gofynnol i herio ysgolion lle nad yw cyrhaeddiad y plentyn yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, a rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r staff allweddol y mae angen iddynt siarad â nhw i wneud hynny megis cael cymorth trwy gonsortia addysg rhanbarthol a chynghorwyr her ysgolion.

**4.28** Mae gofalwyr maeth, trwy'r Rhwydwaith Maethu, wedi dweud wrthym eu bod angen:

- gwell hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant ar y cyd gyda gweithwyr cymdeithasol preswyl
- gwell partneriaethau rhwng gofalwyr maeth a staff ysgol dynodedig
- gofalwyr maeth i gael eu cydnabod fel addysgwyr plant mewn gofal maeth
- gwell mynediad at addysg/hyfforddiant adferol ac ategol.

**4.29 Cam gweithredu Rhif 9:** Dylai consortia addysg rhanbarthol – a'u partneriaid – ystyried sut i gefnogi gofalwyr maeth a gofalwyr eraill gyda hyfforddiant priodol sydd â ffocws addysgol penodol ar y plant yn eu gofal.

## Ysgolion a lleoliadau addysgol

**4.30** Mae'n rhaid i bob ysgol, sef y lefel agosaf at blant, barhau i ganolbwyntio'n briodol

ar blant sy’n derbyn gofal o ddydd i ddydd. Mae’n rhaid dynodi staff allweddol sydd â’r sgiliau a’r arbenigedd priodol i arwain gwaith gyda phlant sy’n derbyn gofal. Mae dealltwriaeth o’r system ofal ac o’r effaith bosibl y mae bod mewn gofal yn ei chael ar addysg plentyn, a sut i’w goresgyn, yn fantais amlwg.

**4.31** **Cam gweithredu Rhif 10:** Mae llawer o gyrff llywodraethu eisoes yn enwebu llywodraethwr arweiniol dynodedig, sy’n cael ei alw’n llywodraethwr cyswllt plant sy’n derbyn gofal gan amlaf. Mae’r rôl hon yn bwysig o ran gweithredu fel eiriolwr, craffu a herio trefniadau ac o ran darparu cymorth i’r aelod o staff arweiniol dynodedig ar gyfer plant yn yr ysgol. Bydd hyfforddiant priodol ar gyfer llywodraethwyr ysgol a ddarperir gan awdurdodau lleol yn adlewyrchu anghenion plant a bydd canllawiau yn amlinellu sut mae swyddogaethau’r aelod o staff arweiniol dynodedig a’r llywodraethwr dynodedig yn cyd-fynd â’i gilydd. Byddwn yn hyrwyddo rôl y llywodraethwr cyswllt ar gyfer plant sy’n derbyn gofal ac yn annog pob corff llywodraethu i ddewis llywodraethwr i gynrychioli buddiannau’r bobl ifanc hyn fel arfer da safonol.

**4.32** Mewn cydweithrediad â’r pennaeth, dylid darparu adnoddau, cymorth a hyfforddiant priodol i sicrhau bod pobl sy’n cyflawni’r swyddogaethau allweddol hyn yn gallu gwneud eu gwaith yn effeithiol. Dylai Llywodraethwyr Cymru fod â chysylltiad agos â’r gwaith hwn.

**4.33** **Cam gweithredu Rhif 11:** Mae rhai sefydliadau addysg bellach yng Nghymru wedi gwneud gwaith rhagorol i ennill Marc Safon Buttle UK am y cymorth maent yn ei roi i’r rhai sy’n gadael gofal. Er bod Buttle UK wedi rhoi’r gorau i weinyddu’r Marc Safon, dylai pob sefydliad barhau i weithio i fodloni ei feini prawf a datblygu’r arferion da presennol. Dylai sefydliadau barhau i ddangos arweiniad cryf a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i sicrhau bod dysgwyr o gefndir gofal yn cael y cymorth gorau posibl. Dylai person arweiniol dynodedig ar gyfer y bobl ifanc hyn fod wedi’i glustnodi fel rhan o’r ddarpariaeth cymorth i fyfyrwyr ym mhob sefydliad addysg bellach.

## B. Datblygu partneriaethau effeithiol a chydweithio

**4.34** Mae angen i ni gydweithio’n well ac yn fwy effeithiol i gefnogi addysg plant sy’n derbyn gofal a hwyluso gwaith partneriaeth a chydweithio. Mae angen i rôl bwysig ac arwyddocaol gofalwyr maeth, gweithwyr gofal preswyl plant, gofalwyr sy’n berthnasau a rhieni gael ei hadlewyrchu wrth gefnogi ac ysgogi plant i fynd i’r ysgol neu leoliad addysgol a hyfforddi a gwerthfawrogi’r cyfle hwnnw.

**4.35** Mae angen i ni sicrhau bod trefniadau yn adeiladu ar enghreifftiau da o waith partneriaeth a’r awydd sydd gan bawb sy’n rhan o fywydau plant i wella perfformiad addysgol dysgwyr. Mae’n hanfodol bod cymorth digonol yn cael ei drefnu er mwyn creu amgylchedd sy’n gwbl addas ar gyfer cydweithredu effeithiol. Mae’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn enghraifft dda o waith partneriaeth sydd, trwy gynllun, yn dwyn ynghyd elfennau hanfodol o leihau NEET mewn un lle.

**4.36** Mae plant a phobl ifanc sy’n dechrau derbyn gofal yn mynd yn rhan o gyfres o systemau a chysylltiadau cymhleth. O ystyried natur gymhleth yr asiantaethau a’r gweithwyr proffesiynol sy’n cefnogi bywydau’r plant hyn, mae cydweithio effeithiol yn hanfodol. Bydd cydweithio ar bob lefel yn helpu partneriaid i rannu arferion cadarn a nodi gwendidau a rhwystrau posibl.

**4.37** Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau addysg gydweithio'n effeithiol i alluogi pobl ifanc i barhau mewn addysg a chyflawni eu potensial. Gwyddom y gall cynnydd a chyrhaeddiad plentyn gael eu heffeithio'n sylweddol os yw'n gorfod newid lleoliad ar adegau hollbwysig o'i fywyd ysgol. Mae arholiadau a'r cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd a'r ysgol uwchradd i addysg bellach yn amseroedd allweddol.

**4.38** **Cam gweithredu Rhif 12:** Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol – yn arbennig Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal - a rhanddeiliaid eraill i sefydlu grŵp strategol cenedlaethol i gefnogi ymarfer cyson wrth gefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r rhyngddibyniaethau sy'n bodoli rhyngddynt. Byddwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo cymorth i ymarferwyr, rhannu arferion da a nodi a goresgyn rhwystrau i lwyddiant.

**4.39** **Cam gweithredu Rhif 13:** Byddwn yn gweithio gyda CLlLC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) i gyflwyno 'cymuned ymarfer' i helpu i feithrin cysylltiadau a pherthynas waith fwy effeithiol rhwng aelodau o staff arweiniol dynodedig mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach, Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol.

**4.40** **Cam gweithredu Rhif 14:** Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag Estyn i ystyried pa wybodaeth a fyddai'n helpu i gefnogi cydweithio a darpariaeth ar lefel leol. Bydd y meysydd gwaith yn cynnwys cynhyrchu astudiaeth thematig, gan ddarparu astudiaethau achos cadarn fel bod Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ac ysgolion yn gallu manteisio ar arferion llwyddiannus i'w helpu i ddarparu gwell cymorth.

**4.41** **Cam gweithredu Rhif 15:** Bydd cryfhau swyddogaeth y trydydd sector a'r sector annibynnol yn sicrhau agwedd fwy holistaidd tuag at ddarpariaeth, a darparu eiriolwyr ar gyfer plant, nad yw'n hawdd ennyn eu diddordeb mewn addysg yn aml. Bydd Grŵp Llywio Strategol Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gellir gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal trwy atal ac ymyrraeth gynnar, gwell cydweithredu ar draws asiantaethau a thrwy nodi a rhannu arferion da a gwneud gwelliannau lle bo angen. Mae'r trydydd sector a'r sector annibynnol yn cael eu cynrychioli ar y Grŵp a byddant yn siarad ar ran y plant hyn ynglŷn â datblygu trefniadau a fydd yn cefnogi eu cyrhaeddiad addysgol ac yn gwella eu llesiant cyffredinol.

**4.42** **Cam gweithredu Rhif 16:** Dylai awdurdodau lleol sydd â phroffiliau dysgwyr tebyg gydweithio mwy a datblygu dulliau mwy effeithiol o rannu arferion da, arbenigedd proffesiynol a chymorth addysgu ar draws awdurdodau. Dylai awdurdodau lleol weithio gyda chonsortia addysg rhanbarthol i gynllunio camau gweithredu strategol a ariennir gan y Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn ystyried cyfleoedd i gydweithio mwy er mwyn cefnogi ymarfer gwell a mwy cyson, a rhannu arferion da.

**4.43** **Cam gweithredu Rhif 17:** Dylai awdurdodau lleol fapio, adolygu a chryfhau protocolau lleol presennol drwy ddefnyddio cytundebau lefel gwasanaeth a memoranda cyd-ddealltwriaeth. Mae asiantaethau sy'n methu cydweithio'n ystyrlon yn gallu cael effaith hynod niweidiol ar blant sy'n derbyn gofal a'u haddysg. Er mwyn osgoi amharu ar addysg plant sy'n derbyn gofal, dylai gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau addysg ystyried a oes modd i'r plentyn barhau i fynychu'r un ysgol hyd yn oed os yw ei leoliad preswyl yn newid. Ni ddylai costau cludiant a dadleuon ynglŷn â phwy sy'n talu fod yn rhwystrau i sefydlogrwydd lleoliad dysgwyr mewn ysgolion.

**4.44 Cam gweithredu Rhif 18:** Dylai consortia addysg rhanbarthol ac awdurdodau lleol gydweithio gydag ysgolion, lleoliadau addysgol a'r trydydd sector i fapio deunyddiau presennol i helpu gofalwyr a rhieni maeth i ddeall pwysigrwydd ymgysylltu ag ysgolion a darparwyr addysg ôl-16. Dylent wedyn gydweithio i ddatblygu deunydd nad yw ar gael yn barod a nodi lle mae angen y deunydd hwnnw. Gall unrhyw gostau sy'n codi o'r gweithgarwch strategol hwn gael eu talu trwy elfen plant sy'n derbyn gofal y Grant Amddifadedd Disgyblion.

**4.45** Gallai'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach fod yn fecanwaith ar gyfer hyrwyddo'r deunydd a sicrhau bod gan y sectorau addysg bellach ac uwch gynrychiolaeth ddigonol.

**4.46** Dylai Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a Chydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu gydweithio â phartneriaid megis Gyrfa Cymru, ysgolion, sefydliadau AB, darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith, Timau Troseddau Ieuenctid a Gwasanaethau Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal (CLASS) Cymru i sicrhau bod plant sydd mewn perygl o ddod yn NEET yn cael eu nodi a'u cefnogi trwy'r pontio o addysg orfodol i addysg uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth. Bydd hyn o fudd hefyd i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

**4.47 Cam gweithredu Rhif 19:** Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phob parti trwy gyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol ac yn helpu i adeiladu rhwydwaith effeithiol i sicrhau bod gwasanaethau cyson yn cael eu darparu.

**4.48** Mae'n ofynnol i bobl ifanc sy'n derbyn gofal neu'r rhai sy'n gadael gofal ddatgelu eu statws 'derbyn gofal' wrth ymrestru mewn sefydliad addysg uwch er mwyn derbyn eu Bwrsari Addysg Uwch o £2,000, a delir gan awdurdodau lleol. Yn aml, mae'r broses hon yn rhwystro pobl ifanc sy'n derbyn gofal neu'r rhai sy'n gadael gofal rhag manteisio ar eu hawl oherwydd y stigma posibl y gallant deimlo yn sgil gorfod gwneud hyn.

**4.49** I sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael y cymorth iawn, mae'n bwysig bod sefydliadau AB ac AU yn gallu eu hadnabod. Fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i barchu dymuniadau'r dysgwr a sicrhau diogelwch ei wybodaeth bersonol.

**4.50 Cam gweithredu Rhif 20:** Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i wella'r broses o rannu data rhwng ysgolion a darparwyr addysg ôl-16, a bydd yn ystyried anghenion penodol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal fel rhan o'r gwaith hwn.

## C. Addysgu a dysgu effeithiol

**4.51** Mae ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn deall y cyfraniad grymus y gallant ei gael tuag at wella ansawdd bywyd ac addysg plant sy'n derbyn gofal yn sylweddol. Mae llawer ohonynt eisoes wedi cyflwyno arferion cynaliadwy rhagorol. Yn gyffredinol, maent yn gwybod mwy nag yn y gorffennol, ac yn gallu nodi anghenion plant yn well.

**4.52** Yn aml, gall profiadau bywyd plant sy'n derbyn gofal arwain at ymddygiad y gellid ei gategoreiddio fel anghyson ac afresymol. Gallant ddioddef o anhwylderau ymlyniad a phroblemau emosiynol eraill y mae angen i athrawon allu eu rheoli mor sensitif â phosibl. Yn ôl Right to Learn, mae 9% o blant a phobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion yn derbyn gofal ac mae angen i systemau a mesurau i gefnogi llesiant disgyblion trwy reoli

ymddygiad yn effeithiol gael eu gwella.

**4.53** Dylid rhoi blaenoriaeth i gadw'r dysgwr yn yr ysgol gan ofyn am gyngor yr awdurdod lleol a chyrff proffesiynol eraill yn ôl y gofyn. Mae hyn yn cynnwys mynediad at wasanaethau seicolegol a/neu seiciatrig yn yr achosion mwyaf difrifol. Dylid cynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal mor gynnar â phosibl, gan weithio gyda'r ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill i osgoi'r angen i wahardd y dysgwr.

**4.54** Mae'n rhaid olrhain taith addysgol plant sy'n derbyn gofal fel y gellir cyfnewid gwybodaeth ddefnyddiol, nid data'n unig, pan fydd plentyn yn newid ysgol a chadw cofnod cywir o'i addysg. Mae prosesau olrhain gwell hefyd yn helpu i nodi bylchau yn natblygiad addysgol y plentyn a'r meysydd lle mae angen cymorth ychwanegol – mae hyn yn arbennig o bwysig wrth fonitro plant a leolir y tu allan i'r sir/y wlad a'r rhai sy'n mynychu ysgolion arbennig annibynnol sy'n gysylltiedig â chartrefi plant.

**4.55** Mae'n rhaid i'r Cynllun Addysg Personol (a/neu'r Cynllun Datblygu Unigol) fod yn amserol, yn gywir ac yn ystyrlon, a rhaid iddo berthyn i'r plentyn a chael ei ddatblygu ar y cyd gan y darparwr addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol. Wrth greu amgylchedd lle mae plentyn yn teimlo'n rhan o'r broses maent yn llai tebygol o gael ei ddadrithio. Mae llawer o bobl ifanc wedi dweud wrthym yr hoffent fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a datblygu eu cynlluniau addysgol o'r cychwyn. Roedd y rhai oedd yn rhan o'r gwaith hwn yn teimlo eu bod yn cael mwy o gymorth ac yn hapusach yn eu haddysg. Yn ogystal, roedd yna deimlad cryf y dylai'r cynllun ganolbwyntio cymaint ar eu datblygiad personol ag ar gyrhaeddiad addysgol. Dylid defnyddio egwyddorion cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel mater o drefn wrth gyflawni'r ddyletswydd bwysig hon.

**4.56** Dylai ysgolion ganolbwyntio'n benodol ar y camau gweithredu yn y strategaeth hon, gan fynd i'r afael ag unrhyw fylchau ar unwaith. Bydd gwaith yr aelod staff arweiniol a'r llywodraethwr arweiniol yn hollbwysig i roi'r trefniadau hyn ar waith, ond dylai pobl aelod o staff fod yn ymwybodol o'r trefniadau cymorth. Yn ôl yr ymchwil a gynhaliwyd gan CASCADE – Prifysgol Caerdydd, mae mentora cymheiriaid yn gallu bod yn help mawr i blant mewn llawer o achosion. Mae darparu cefnogaeth emosiynol pan maent yn mynd trwy gyfnod anodd yn gallu cael effaith wirioneddol ar brofiad addysgol. Dylai ysgolion archwilio'r cysyniad o gynnig cymorth grŵp cymheiriaid, a fyddai ar gael ar sail wirfoddol.

**4.57** Ers peth amser, mae'r prif ffocws wedi bod ar gyrhaeddiad academaidd plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, ni ddylai'r elfen hon leihau pwysigrwydd cefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol (llesiant) unigolyn. Dylid cydnabod bod cysylltiad rhwng y ddwy elfen a dylid rhoi statws cyfartal iddynt. Nid yw llesiant a chyrhaeddiad plant agored i niwed yn annibynnol ar ei gilydd.

**4.58** **Cam gweithredu Rhif 21:** Bydd ysgolion yn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael blaenoriaeth yn y broses o dderbyn disgyblion a bod absenoldebau anesboniadwy yn derbyn sylw yn ddi-oed. Sefydlogrwydd yw'r ffactor allweddol. Mae hyn yn golygu hefyd mai dim ond yn yr achosion mwyaf eithafol y dylid ystyried gwahardd disgyblion. Bydd ysgolion yn gweithio'n agos gyda'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Swyddog Lles Addysg i fonitro presenoldeb y plant hyn ac ymateb yn syth i absenoldebau diwrnod cyntaf.

**4.59 Cam gweithredu Rhif 22:** Bydd ysgolion yn rhoi pwyslais ar rannu gwybodaeth, a'r angen i wneud hynny'n brydlon. Os yn bosibl, dylid trefnu cyfarfodydd rhannu gwybodaeth cyn bod disgybl yn dechrau mewn ysgol neu leoliad addysgol newydd fel arfer da cyffredin. Dylai'r cyfarfodydd gynnwys staff priodol o ysgol newydd y plentyn ac o'i hen ysgol ynghyd â gweithwyr cymdeithasol a staff o asiantaethau eraill. Mae'n hanfodol bod cyfrinachedd a phreifatrwydd yn cael eu cynnal ac mai dim ond gwybodaeth sydd ei hangen arnynt y mae gweithwyr proffesiynol yn ei chael. Dylai fod gan bob ysgol brotocolau priodol ynglŷn â hyn.

**4.60 Cam gweithredu Rhif 23:** Bydd ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol ar gael yn ymwneud â rheoli ymddygiad heriol a nodi anghenion plant sy'n dioddef o broblemau trawma ac ymlyniad. Dylai consortia addysg rhanbarthol a Chydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ymgysylltu ag ysgolion a lleoliadau addysgol i ystyried sut y gallai hyfforddiant ymwybyddiaeth ehangach i helpu staff ysgol i gefnogi plant agored i niwed gael ei gomisiynu a'i ddarparu'n rhanbarthol a'i ariannu trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Lle bo modd, dylai staff o sefydliadau addysg bellach gael eu cynnwys yn yr hyfforddiant.

**4.61 Cam gweithredu Rhif 24:** Dylid gwneud trefniadau i wella gweithgareddau olrhain er mwyn monitro cynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal a sicrhau bod Cynlluniau Addysg Personol a Chynlluniau Datblygu Unigol ystyrlon ar waith. Mae yna enghreifftiau o arferion da mewn rhai awdurdodau lleol lle mae systemau ar waith i olrhain cynnydd pob plentyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion lle mae plentyn yn cael ei leoli a'i addysgu y tu allan i'r awdurdod lleol cartref. Dylai consortia addysg rhanbarthol weithio gyda'u Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n derbyn Gofal i nodi a rhannu enghreifftiau o systemau olrhain a monitro da.

**4.62 Cam gweithredu Rhif 25:** Dylai ysgolion gydweithio ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc er mwyn pennu targedau ymarferol ond heriol, gan gydnabod y gall addysg fod yn isel ar agenda'r person ifanc oherwydd materion emosiynol eraill. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei ffurfioli yn y cynllun addysg. Rhaid i gynlluniau addysg fonitro a chofnodi datblygiad personol y plentyn yn fwy manwl.

**4.63** Byddwn ni'n gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyrhaeddiad addysgol os oes mwy o'r plant hyn yn dewis parhau â'u haddysg ar ôl oedran ysgol gorfodol. Fodd bynnag, gall ysgolion a darparwyr addysg ôl-16 gydweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig o lawer er mwyn cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal wrth iddynt symud ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch. Gellid cynnig a darparu mwy o gymorth ymarferol. Mae angen i staff Addysg Bellach ac Addysg Uwch wybod â phwy i gysylltu o fewn gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod plant yn cymryd rhan ac nad ydynt yn rhoi'r gorau i addysg ôl-16.

**4.64 Cam gweithredu Rhif 26:** Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid yn CLASS Cymru ac awdurdodau lleol i gynnal rhestr gyswllt genedlaethol o staff allweddol megis Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu (EPCs) a swyddogion cymorth i fyfyrwyr addysg bellach ac uwch i wella cyfathrebu. Awgrymir y dylai'r rhestr gyswllt gael ei hadolygu a'i diweddaru bob chwe mis.

**4.65 Cam gweithredu Rhif 27**: Disgwylir i ysgolion drefnu bod disgyblion blwyddyn 11 yn ymweld â lleoliadau addysgol er mwyn cael mwy o wybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael a'r gofynion mynediad. Rydym yn disgwyl y bydd gan bob sefydliad addysg bellach berson

arweiniol dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac y bydd yr aelod hwn o staff yn cefnogi darpar fyfyrwyr mewn amgylchedd priodol nad yw'n stigmateiddio.

**4.66 Cam gweithredu Rhif 28:** Dylai ysgolion a sefydliadau ôl-16 ffurfioli protocolau a chytundebau lefel gwasanaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth a hwyluso cyfnod pontio llwyddiannus o'r ysgol i addysg ôl-16 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae gan ysgolion ac awdurdodau lleol gyfrifoldeb i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r holl opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys dysgu galwedigaethol a dysgu seiliedig ar waith, ac i'w helpu i bontio i leoliadau addysg a hyfforddiant eraill.

**4.67 Cam gweithredu Rhif 29:** Dylai sefydliadau addysg uwch ddatblygu cynlluniau mentora ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn cefnogi sefydlogrwydd yn eu bywydau a sicrhau eu bod yn cwblhau eu hastudiaethau.

**4.68** Er bod angen gwella perfformiad cyffredinol y rhan fwyaf o'r plant hyn, ni allwn anwybyddu enghreifftiau o waith rhagorol mewn ysgolion. Mae rhywfaint o'r arferion da hyn yn cael eu rhannu, ond mae'n digwydd ar sail ad hoc. Mae angen i ni gyd fanteisio ar arferion da a'u defnyddio yn ein gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal.

## Gwella'r defnydd o ddata

**4.69** Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gwella ansawdd a dibynadwyedd y data y mae'n ei gasglu ar grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r cyfrifiad Plant mewn Angen a gyflwynwyd yn 2008-09 yn cynnwys plant sy'n derbyn gwasanaethau cymorth yn gyson am dri mis hyd at 31 Mawrth ym mlwyddyn y cyfrifiad. Mae'r cymorth yn cael ei ariannu gan gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol plant, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth yn eu teuluoedd neu'n annibynnol, plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal.

**4.70** Mae data'r cyfrifiad yn cael ei gyplysu â data ar addysg i ddarparu trosolwg o gyrhaeddiad ledled y Cyfnodau Sylfaen a phob un o'r Cyfnodau Allweddol. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio data'r cyfrifiad ar y cyd â gwybodaeth arall er mwyn dadansoddi a chynllunio eu patrymau gweithgarwch ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac addysg plant, a chymharu eu poblogaethau o blant mewn angen â phoblogaethau awdurdodau lleol eraill.

**4.71** Er bod ansawdd y data sy'n cael ei gasglu wedi gwella, byddwn yn sicrhau bod y data'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd gadarn fel bod yr ymyriadau sydd ar waith i gefnogi'r plant hyn yn amserol ac yn effeithiol.

**4.72 Cam gweithredu Rhif 30:** Gan weithio gyda'n partneriaid, bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu sut mae'r data amrywiol ar blant sy'n derbyn gofal yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi er mwyn cyfnerthu setiau data lluosog a lleihau cymhlethdod. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ystyried argaeledd meincnodau a chymharu ar draws awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol.

**4.73 Cam gweithredu Rhif 31:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod plant a oedd yn arfer derbyn gofal ac sydd wedi'u mabwysiadu yn llwyddo mewn addysg ac yn cyrraedd eu llawn botensial. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyfrifiad Plant mewn Angen yn nodi nac yn cipio data ar gyrhaeddiad addysgol plant a oedd yn arfer derbyn gofal sydd wedi'u mabwysiadu. O ganlyniad, nid ydym yn gallu monitro eu cynnydd addysgol. Gan

weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac Adoption UK (Cymru), byddwn yn ystyried ffyrdd o gipio'r wybodaeth ystadegol bwysig hon.

**4.74 Cam gweithredu Rhif 32:** Ar hyn o bryd, nid oes digon o wybodaeth ar gael am ganlyniadau plant a oedd yn arfer derbyn gofal ar ôl iddynt adael y system ysgol a symud i leoliadau addysgol eraill. Byddwn yn comisiynu dadansoddiad cychwynnol sy'n defnyddio data wedi'i gymharu er mwyn nodi canlyniadau ôl-16 ar gyfer y bobl ifanc hyn, gan gynnwys cyfraddau cadw, cyrhaeddiad a datblygu. Bydd hyn yn helpu i nodi'r llinell sylfaen y gellir ei defnyddio wedyn i gynnal dadansoddiad blynyddol a nodi unrhyw fylchau pwysig yn y data sydd ar gael.

## Cryfhau trefniadau ariannu

**4.75** Ers mis Ebrill 2015, mae'r consortia addysg rhanbarthol wedi bod yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ddarparu cymorth strategol a sicrhau gwell cyrhaeddiad addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Gall plant a oedd yn arfer derbyn gofal sydd wedi'u mabwysiadu neu sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig gael eu cefnogi hefyd os bydd consortia yn dewis manteisio ar y disgresiwn rydym wedi'i gyflwyno yn y meini prawf cymhwysedd.

**4.76** Y consensws cyffredinol gan ddarparwyr addysg yw bod y trefniant hwn wedi darparu cyfle gwirioneddol i ddefnyddio dull mwy cyfannol wrth ddyrannu adnoddau strategol, sydd o fudd i boblogaethau cyfan o blant agored i niwed, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi'u mabwysiadu, yn eu rhanbarth. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda chonsortia addysg rhanbarthol i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio fel y dylai a'i fod yn cael effaith go iawn o ran gwella perfformiad addysgol y plant hyn, sy'n cyd-fynd ag amcanion y strategaeth hon a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

**4.77 Cam gweithredu Rhif 33:** Er mwyn atgyfnerthu atebolrwydd consortia am sicrhau canlyniadau, byddwn yn gweithio gyda'r consortia addysg rhanbarthol i gyflwyno proses adrodd newydd er mwyn olrhain a monitro gwariant yn well. O fis Ebrill 2016 ymlaen, byddwn yn cyflwyno proses adolygu gyflym i werthuso effeithiolrwydd blwyddyn gyntaf y trefniadau ariannu newydd.

**4.78** Mae Adoption UK (Cymru) a Chydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal wedi disgrifio sut mae'r problemau cymhleth sy'n effeithio ar allu plentyn i gyflawni ei botensial addysgol yn parhau yn aml ar ôl i'r plentyn gael ei fabwysiadu. Mae hyn yn her i'r teulu sy'n mabwysiadu'r plentyn ac i ysgolion.

**4.79 Cam gweithredu Rhif 34:** Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddeall ym mha feysydd y gall ymyriadau effeithiol gael yr effaith fwyaf. Rydym yn gweithio gydag Adoption UK (Cymru) i gynhyrchu canllawiau a fydd yn rhoi syniad i athrawon a rhieni sy'n mabwysiadu sut y mae trawma oherwydd perthynas yn gynnar mewn bywyd yn effeithio ar ddatblygiad yr ymennydd, pam mae ysgolion yn gallu bod yn her i blant sydd wedi'u mabwysiadu a sut y gallwn ni wella profiad y plant trwy roi sylw i anghenion y plant mwyaf agored i niwed. Er mai mabwysiadu yw'r ffocws, mae'r wybodaeth yn berthnasol hefyd i blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol a phlant eraill sy'n byw gyda cholled a thrawma cynnar.

## Cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu mabwysiadu at y gwaith o lywio dulliau gweithredu strategol a phenderfyniadau gweithredol

**4.80** Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Sail gyfreithiol y ddyletswydd hon yw Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud unrhyw drefniadau sy'n addas yn eu barn nhw i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt.

**4.81** Er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, disgwylir i awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd yn cael eu darparu i hwyluso cyfranogiad effeithiol. Dylai'r cyfleoedd hyn gael eu hymgorffori mewn gwasanaethau o ddydd i ddydd, yn ogystal â mewn strwythurau cyfranogi penodol fel fforymau ar gyfer plant, fforymau ar gyfer pobl ifanc neu grwpiau/fforymau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, yn agored i niwed neu sydd â diddordeb arbennig mewn mater penodol.

**4.82** Yn unol ag Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, rydym yn disgwyl i bawb sy'n gysylltiedig â lles ac addysg y plant hyn fod yn bobl ddibynadwy y gellir ymddiried ynddynt, sy'n trin y plant â pharch ac yn gwrando ar eu safbwyntiau.

**4.83** Dywedodd y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld fel rhan o'n hymgynghoriad bod addysg yn hollbwysig er mwyn sicrhau 'dyfodol cadarnhaol', nid yn unig trwy ddysgu addysgol ond hefyd trwy ddatblygu'r sgiliau bywyd a'r cyfleoedd sydd eu hangen er mwyn llwyddo. Yn gryno, dywedodd y bobl ifanc y canlynol wrthym:

- eu bod yn rhwystredig yn aml gan eu bod yn teimlo nad yw oedolion a gwasanaethau cymorth yn gwrando arnynt. Er eu bod yn ymwybodol o'u hawl i gael eiriolaeth, dywedodd rhai pobl ifanc nad oedd byth yn cael ei gynnig iddynt
- nid yw pob athro'n deall sut beth yw derbyn gofal neu gael ei fabwysiadu. Dylent dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth
- hoffent gael cyfle i gyfrannu a dylanwadu ar yr hyfforddiant athrawon wrth godi ymwybyddiaeth o'r problemau maent yn eu hwynebu
- maent am gyfrannu mwy at benderfynu beth sydd yn eu Cynllun Addysg Personol/Cynllun Datblygu Unigol
- nid ydynt am i gyfarfodydd sy'n ymwneud â'u hamgylchiadau gofal gael eu cynnal yn ystod oriau ysgol, yn enwedig yn ystod gwersi, gan fod hynny'n tarfu ar eu haddysg
- os ydynt wedi newid ysgol, maent am deimlo eu bod yn rhan o'r broses benderfynu
- maent am gael mwy o gymorth a gwybodaeth er mwyn gallu pontio o'r ysgol i addysg ôl-16.

**4.84** Mae safbwyntiau'r dysgwyr hyn wedi'u defnyddio i lywio'r camau gweithredu yn y strategaeth hon.

**4.85** **Cam gweithredu Rhif 35:** Er mwyn cyflawni'r camau gweithredu yn y strategaeth hon, bydd angen cymorth sefydliadau'r sector preifat sy'n cynrychioli buddiannau plant sy'n derbyn gofal. Wrth adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu, byddwn yn ceisio cael

barn plant sy'n derbyn gofal hefyd er mwyn mesur yr effaith mae ein strategaeth yn ei chael ar eu profiad ym maes addysg.

**4.86 Cam gweithredu Rhif 36:** Byddwn yn cefnogi'r Siarter ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, a ddatblygwyd gan Rwydwaith Plant sy'n Derbyn Gofal Fforwm Gofal Cymru mewn cydweithrediad â sefydliadau partner, ac yn parhau i annog yr holl asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal er mwyn canolbwyntio mwy ar y person wrth ddarparu eu gwasanaethau.

**4.87 Cam gweithredu Rhif 37:** Byddwn yn gweithio gyda chonsortia addysg rhanbarthol i sicrhau bod barn y plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu mabwysiadu yn cael ei hystyried wrth gynllunio a darparu'r cymorth a dargedir trwy elfen plant sy'n derbyn gofal y Grant Amddifadedd Disgyblion.

## Casgliad

**4.89** Mae gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn hanfodol a bydd ond yn bosibl os yw gwasanaethau addysg, cymdeithasol ac eraill yn cydweithio'n effeithiol.

**4.90** Mae'n rhaid cael integreiddio di-dor sy'n dechrau ar lefel uchaf Llywodraeth Cymru ac sy'n cyrraedd i mewn i'r ystafell ddosbarth i sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal yn derbyn cymorth a chefnogaeth.

**4.91** Mae'r strategaeth hon yn cadarnhau pwysigrwydd y gwaith hwn ac yn nodi'r camau gweithredu sy'n rhaid i ni eu cymryd ar y cyd i sicrhau bod ein holl bobl ifanc yn cyflawni eu potensial yn llawn.

## Amcanion cenedlaethol

**1.** Mae'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r strategaeth hon yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal; ymrwymiad a rennir gan yr holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, consortia addysg, ysgolion, lleoliadau addysgol gyda chefnogaeth y trydydd sector. Mae'r achos o blaid newid yn un grymus gan fod angen i'r system weithio mewn partneriaeth yn gyflym er mwyn gwneud gwelliannau.

**2.** Nod y strategaeth a'r cynllun gweithredu yw sbarduno cynnydd sylweddol yng nghyrhaeddiad addysgol y plant hyn ym mhob Cyfnod Allweddol ac mae angen i ni barhau â'r gwelliant amlwg a welwyd yn y canlyniadau rhwng 2013 a 2014. Rhaid i'r duedd hon ar i fyny barhau a chyflymu. Rhaid i ni beidio â gadael i berfformiad addysgol ddirywio ac rydym yn cyflwyno targed cyrhaeddiad cenedlaethol i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar berfformiad.

**3.** Yn seiliedig ar y gyfradd gwella o 4 pwynt canran rhwng 2013 a 2014 yng Nghyfnod Allweddol 4 – trothwy cynhwysol Lefel 2, rydym wedi gweld cynnydd yn y cyrhaeddiad i 17% yn 2014 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed cenedlaethol yng nghyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal trwy godi cyrhaeddiad pobl ifanc 15 oed yng Nghyfnod Allweddol 4 o drothwy cynhwysol Lefel 2 o 17% yn 2014 i 25% yn 2016 fel y nodwyd yn y cyfrifiad Plant mewn Angen.**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed cenedlaethol hefyd i sicrhau bod 75% o'r rhai sy'n gadael gofal wrth droi'n 19 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2018. Bydd y camau gweithredu yn y strategaeth hon yn gwneud cyfraniad mawr at gyflawni'r targed hwnnw.**

Bydd perfformiad yn cael ei fonitro'n ofalus bob blwyddyn, gan ddefnyddio'r cyfrifiad Plant mewn Angen a ffynonellau data eraill i wirio cynnydd a sicrhau bod y cymorth sydd ar waith yn gweithio'n effeithiol a byddwn yn alinio'r defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion o fis Ebrill 2016 ymlaen i gyflawni'r targed hwn. Bydd y trefniadau monitro hyn yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau pellach o dan amgylchiadau lle mae'n amlwg nad yw gwelliannau'n cael eu gwneud.

> …… mae fframwaith newydd, a mwy effeithiol o bosibl, ar gyfer cyflawni polisi yn datblygu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei chynigion i ddarparu addysg a gofal cymdeithasol ar lefel fwy rhanbarthol a chenedlaethol. Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn parhau i ddatblygu partneriaethau cynllunio lleol. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn cynnig fframwaith newydd a allai ddatblygu strategaethau cydgysylltiedig a chliriach ar gyfer pobl ifanc sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Fodd bynnag, mae perygl o hyd na fydd plant sy'n agored i niwed yn cael y sylw manwl ac unigol sydd ei angen arnynt.
>
> Swyddfa Archwilio Cymru, Awst 2012